

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Medi 2016 Kath Thomas – Dipwrwy Glerc
Amser: 08.45 0300 200 6565
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

Cyfarfod preifat cyn y cyfarfod cyhoeddus: Datblygiad proffesiynol parhaus yr
Aelodau (08:45 – 09:00)

Members' Brief

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

2 Deisebau newydd

2.1 P-04-688 Gorsaf Bŵer Tata Steel ym Mhort Talbot

(Tudalennau 40 – 42)

2.2 P-05-698 Ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn Maes Awyr Rhyngwladol y Dywysoges Diana

(Tudalennau 43 – 46)

2.3 P-05-699 Cronfa Driniaeth i Gymru – rhaid dod â'r Loteri Cod Post ynghylch lechyd i ben

(Tudalennau 47 – 56)

2.4 P-05-700 Ariannu Cyllid Myfyrwyr ar gyfer Cyrsiâu Ôl-raddedig

(Tudalennau 57 – 63)

2.5 P-05-701 Gwelliannau i Ddiogelwch y Ffordd ar Hyd Cefnffordd yr A487 Rhwyng Aberteifi ac Aberystwyth, i Gynnwys Mannau Pasio

(Tudalennau 64 – 70)

2.6 P-05-702 Gofynion presenoldeb y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr

(Tudalennau 71 – 79)



- 2.7 P-05-703 Cynnig i ohirio'r Cyfyngiadau ar Bysgota yn Afonydd Cymru
(Tudalennau 80 – 88)
- 2.8 P-05-706 Sicrhau bod ein Cynghorau yn cael eu Hadfywio drwy Gyflwyno
Tymor Sefydlog
(Tudalennau 89 – 99)
- 2.9 P-05-708 Gwneud Iechyd Meddwl yn Rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
(Tudalennau 100 – 105)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Amgylchedd a Materion Gwledig

- 3.1 P-04-683 Coed mewn Trefi
(Tudalennau 106 – 109)
- 3.2 P-05-691 Bargen Deg ar gyfer Raliö mewn Coedwigoedd yng Nghymru
(Tudalennau 110 – 116)
- 3.3 P-05-654 Gwrthwynebu'r Cynigion Presennol o ran Dynodi Ardaloedd
Cadwraeth Arbennig ar gyfer Llamhidyddion
(Tudalennau 117 – 126)
- 3.4 P-04-547 Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym
(Tudalennau 127 – 129)

Addysg

- 3.5 P-04-516 I wneud gwyddor gwleidyddiaeth yn rhan orfodol o addysg
(Tudalennau 130 – 132)
- 3.6 P-04-637 Diogelu Dyfodol Cerddoriaeth Ieuencid yng Nghymru
(Tudalennau 133 – 137)
- 3.7 P-04-677 Mynediad Cyfartal i'r Iaith Gymraeg
(Tudalennau 138 – 141)
- 3.8 P-05-694 Amseroedd Ysgol Awr yn Hwyrach
(Tudalennau 142 – 147)
- 3.9 P-05-695 Cyflwyno Addysg Iechyd Meddwl Orfodol mewn Ysgolion
Uwchradd
(Tudalennau 148 – 154)

Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

3.10 P-04-553 Ymchwiliad llawn ac annibynnol i'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â thechnolegau diwifr a ffonau symudol yng Nghymru, gan gynnwys yr holl ysgolion

(Tudalennau 155 – 173)

3.11 P-05-693 Rhowch y Brechlyn Llid yr Ymennydd B i Bob Plentyn yng Nghymru am ddim

(Tudalennau 174 – 181)

3.12 P-05-697 45,000 o Resymau Pam bod ar Gymru Angen Strategaeth ar Dementia

(Tudalennau 182 – 186)

3.13 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog

(Tudalennau 187 – 190)

Economi a'r Seilwaith

3.14 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477/A4075

(Tudalennau 191 – 192)

3.15 P-05-689 Gwelliannau i'r Ddarpariaeth Reilffyrdd yng Nghydsweli Sir Gaerfyrddin

(Tudalennau 193 – 201)

3.16 P-04-686 Dylid Gosod System Goleuadau Traffig yng Nghylchfan Cross Hands

(Tudalennau 202 – 203)

3.17 P-05-690 Arwynebu Ffordd A40 Rhaglan-Y Fenni

(Tudalennau 204 – 209)

Prif Weinidog

3.18 P-04-672 Dod â Defnydd o'r Gymraeg i Ben.

(Tudalennau 210 – 212)

Sesiwn dystiolaeth

4 P-04-668 Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari (CA125)

(10:15 – 10:45)

(Tudalennau 213 – 218)

Deisebydd – Margaret Hutcheson

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2.1

P-04-688 – Gorsaf Bêr Tata Steel ym Mhort Talbot

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Peter Bamsey ar ôl casglu 531 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio pob dull sydd ar gael iddi, gan gynnwys dulliau ariannol, i gefnogi'r gwaith o gwblhau'r orsaf bêr newydd sydd wedi'i chynllunio ar gyfer gwaith dur Port Talbot. Bydd adeiladu'r orsaf hon yn creu swyddi a phan fydd yn weithredol, bydd yr orsaf yn lleihau allyriadau, yn lleihau costau rhedeg Tata ac yn helpu i ddiogelu swyddi hollbwysig yn yr ardal.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Cyfarfod Tasglu Tata Steel
DYDDIAD 4 Awst 2016
GAN Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer yr Economi a'r Seilwaith

Ar 4 Awst roeddwn yn cadeirio chweched cyfarfod Tasglu Tata Steel. Hwn oedd fy nghyfarfod cyntaf fel Cadeirydd y Tasglu. Roedd cynrychiolaeth gref gan bawb, gan gynnwys Tata Steel, Unite ac Undebau Cymunedol a phartneriaid, sy'n dangos yr ymrwymiad parhaus ar draws sefydliadau i gefnogi'r rhai hynny yr effeithir arnynt gan yr argyfwng dur. Roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yno hefyd yn cynrychioli Llywodraeth y DU.

Rhoddodd Tata Steel yng Nghymru adroddiad o'r perfformiad busnes sy'n parhau i ddangos gwelliant. Mae hyn o ganlyniad i amrywiol ffactorau allanol a mewnol, ac yn arbennig ymrwymiad ac ymdrechion y gweithlu. Rhoddodd Tata y newyddion diweddaraf ar y broses ddiswyddo a ddechreuodd ym mis Ionawr, sydd bellach bron â'i chwblhau. Rhoddwyd diolch i'r holl asiantaethau cymorth sydd wedi bod yn rhan o'r broses.

Roedd yr Undebau Llafur hwythau yn cymeradwyo y llwyddiannau a chyfraniad y gweithlu i'r gwelliannau dros y misoedd diwethaf. Rhoddodd yr Undebau y newyddion diweddaraf i'r Tasglu ar eu sefyllfa bresennol, yn enwedig yr ansicrwydd o ran y broses werthu, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau dyfodol cynaliadwy hirdymor i'r gwaith.

Rhoddodd y ffrydiau gwaith y newyddion diweddaraf ar y datblygiadau.

Mae'r cymorth i weithwyr Tata drwy'r ffrwd gwaith Hyfforddiant a Sgiliau wedi mynd rhagddo ac mae sesiynau cynghori wedi bod ar gael i weithwyr yn y gadwyn gyflenwi. Mae'r cymorth wedi ei ddarparu gan ystod eang o sefydliadau gan gynnwys y Money Advice Service, UK Steel Enterprise, sefydliadau gwirfoddol lleol a CThEM. Mae Canolfan Byd Gwaith wedi

bod ar y safle tan ddiwedd Gorffennaf. Mae Gyrfa Cymru wedi darparu cyflwyniadau gyda phartneriaid ac wedi gweithio'n unigol gyda nifer o weithwyr Tata a rhai o is-contractwyr Tata. Mae'r Undebau wedi rhoi canmoliaeth gref i'r cymorth hyblyg a sensitif sydd wedi'i ddarparu hyd yma gan bob asiantaeth.

Cafwyd y newyddion diweddaraf ar waith y Gadwyn Busnes a Chyflenwi. Trwy Busnes Cymru, mae 30 o gwmnïau wedi derbyn cymorth penodol ac mae 24 o gwmnïau wedi derbyn, neu yn mynd i dderbyn y cymorth hwnnw, tra bod rhai cwmnïau wedi gofyn i'r cymorth sy'n cael ei gynnig gael ei ohirio oherwydd eu hamgylchiadau a heriau busnes penodol. Bydd y ffrwd gwaith yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac mae'r cymorth gan Busnes Cymru yn parhau i fod ar gael ar gyfer busnesau sy'n chwilio am gymorth.

Mae'r ffrwd gwaith iechyd, o dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn datblygu rhaglen o waith i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a lles staff a gweithwyr Tata yn y gadwyn gyflenwi. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar weithredu yn y gymuned, sy'n cynnwys anghenion aelodau ehangach y teulu, gan gynnwys y plant. Mae taflen wybodaeth wedi ei chynhyrchu i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael ac mae'r ffrwd waith yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cyrraedd pawb sydd ei hangen. Mae diolch ynddi i'r Undebau, Tata, sefydliadau gwirfoddol a'r awdurdod lleol am eu cymorth.

Cytunodd y Tasglu y byddai'r ffrwd waith Sgiliau a Hyfforddiant a ffrwd waith Busnes a'r Gadwyn Gyflenwi yn cael eu cyfuno i barhau'r gweithredu ar y cyd rhwng sefydliadau i gefnogi gweithwyr Tata a'r rhai hynny sydd yn y gadwyn gyflenwi. Mae Roger Evans MBE, wedi cytuno i Gadeirio'r ffrwd waith newydd, yn ogystal â gweithredu fel Dirprwy Gadeirydd Prif Dasglu Tata. Bydd y ffrwd waith hon a'r ffrwd waith Iechyd yn cydweithio'n agos.

Bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi sylwadau ar y berthynas weithio gref rhwng pawb hyd yma. Dywedodd wrth y Tasglu bod Llywodraeth y DU yn parhau i gysylltu â phob buddsoddwr posibl i ddatblygu cymorth posibl i'r gwaith. Dywedodd wrth y Tasglu bod yr ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar bensiynau, ddaeth i ben ar 24 Mehefin, yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.

Rhoddais y newyddion diweddaraf i'r Tasglu ar ddatblygiadau Ardal Fenter Glannau Port Talbot. Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda Dinas-ranbarth Bae Abertawe, prifysgolion a chanolfannau ymchwil, Busnes Cymru ac awdurdodau lleol a chyflogwyr amlwg i gefnogi busnesau lleol.

Ers fy mhenodiad, rwyf wedi ymweld â rhan fwyaf o'r gweithfeydd dur yng Nghymru, gan dreulio amser yn ddiweddar yn ymweld â safleoedd Tata yn Shotton, Llanelli, Casnewydd a Phort Talbot. Rwy'n bwriadu cadw mewn cysylltiad agos â phob un o'r gweithfeydd ledled Cymru yn ogystal â gweithfeydd ehangach y diwydiant dur yng Nghymru.

Mae'r cyfnod hwn yn parhau i fod yn ansicr iawn i nifer o weithwyr dur, eu teuluoedd a chymunedau lleol ledled Cymru. Mae'n hollbwysig nad yw'r datblygiadau sydd wedi eu gweld yn y misoedd diwethaf yn cael eu tarfu gan newid staff yn San Steffan. Mae angen i Lywodraeth y DU weithredu ar bensiynau ac ynni, sy'n hanfodol i helpu i sicrhau bod y diwydiant dur yng Nghymru mewn sefyllfa gynaliadwy yn yr hirdymor.

Byddaf yn parhau i hysbysu'r Aelodau wrth i faterion ddatblygu gyda'r gwaith hwn.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y toriad er gwybodaeth i'r aelodau. Os bydd yr aelodau am imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau am y mater hwn pan fydd y Cynulliad yn ailymgynnull, byddaf yn fwy na pharod i wneud hynny.

Eitem 2.2

P-05-698 – Ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn Maes Awyr Rhyngwladol y Dywysoges Diana

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mohammed Sarul Islam ar ôl casglu 16 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn "Maes Awyr Rhyngwladol y Dywysoges Diana

Gwybodaeth ychwanegol

Trwy ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, gellir cael mwy o gyhoeddusrwydd a chwsmeriaid o Gymru.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

Ailenwi Maes Awyr Caerdydd

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2016

Petitions Committee | 13 September 2016

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-698

Teitl y ddeiseb: Ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn Maes Awyr Rhyngwladol y Dywysoges Diana

Testun y ddeiseb: Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn "Maes Awyr Rhyngwladol y Dywysoges Diana".

Trwy ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, gellir cael mwy o gyhoeddusrwydd a chwsmeriaid o Gymru.

Cefndir

Prynodd Llywodraeth Cymru'r maes awyr ar 27 Mawrth 2013 am £52 miliwn, i'w weithredu ar sail fasnachol ar hyd braich oddi wrth Weinidogion.

Mae tri o feysydd awyr y DU wedi eu henwi ar ôl unigolion:

- Yn 2001, newidiwyd enw Maes Awyr Lerpwl i [Faes Awyr Lerpwl John Lennon](#);
- Yn 2006, newidiwyd enw Maes Awyr Dinas Belfast i [Faes Awyr Dinas Belfast George Best](#);
- Mae Maes Awyr Doncaster Sheffield hefyd yn defnyddio'r enw [Maes Awyr Robin Hood](#), neu Faes Awyr Robin Hood Doncaster Sheffield.

Mae'r syniad o ailenwi Maes Awyr Caerdydd yn cael sylw yn y cyfryngau o bryd i'w gilydd. Yn 2014, cafwyd [awgrym](#) gan Geraint Davies AS y gellid newid yr enw i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Dylan Thomas.

Cafodd brand Maes Awyr Caerdydd ei ddiwygio yn 2009, pan newidiwyd yr enw o Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd i 'Faes Awyr Caerdydd' a 'Cardiff Airport', ac fe gyflwynwyd brand gweledol a logo newydd ar yr un pryd.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi awgrymu bod newid enw Maes Awyr Caerdydd yn un o'i blaenoriaethau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai newid enw'r maes awyr yn fater gweithredol i Faes Awyr Caerdydd.

Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn 2014, bu Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad yn trafod [deiseb](#) i ailenwi Maes Awyr Caerdydd yn Faes Awyr Rhyngwladol Robert Owen Cymru, er cof am yr arloeswr o Gymru a chwaraeodd ran flaenllaw yn y Mudiad Cydweithredol. Dywedodd y Gweinidog cyfrifol blaenorol nad oedd unrhyw gynlluniau i ailenwi'r maes awyr, felly caewyd y ddeiseb.

Cyflwynwyd dwy ddeiseb arall yn galw am ailenwi Maes Awyr Caerdydd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ond ystyriwyd bod y ddwy yn annerbyniadwy. Roedd un o'r deisebau hynny yn galw am ailenwi'r maes awyr yn Awyrle Dewi Sant Airport. Roedd yn annerbyniadwy am fod y Pwyllgor wedi ystyried deiseb debyg iawn yn ystod y 12 mis blaenorol (y ddeiseb y cyfeirir ati uchod). Barnwyd bod y ddeiseb arall yn annerbyniadwy am ei bod yn defnyddio iaith y gellid ei hystyried yn dramgwyddus.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-698
Ein cyf/Our ref KS/06087/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee

SeneddPetitions@assembly.wales

17 August 2016

Dear Mike,

Thank you for your letter of 4 August regarding Petition P-05-698, renaming Cardiff Airport the Princess Diana International Airport.

Cardiff Airport is managed at arm's length from Welsh Government on a commercial basis by Cardiff International Airport Limited. They are responsible for the day to day operation and development of the airport and its services. Any change of name for the airport would be an operational matter for Cardiff Airport.

Yours ever,

Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 47

Eitem 2.3

P-05-699 – Cronfa Driniaeth i Gymru – rhaid dod â'r Loteri Cod Post Ynghylch Iechyd i ben

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Angharad Roche ar ôl casglu 27 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Un o'r datblygiadau pwysicaf a ddaeth o Gymru erioed oedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'n un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr ac mae'n rhaid i ni gadw gafael ynddo. Ar hyn o bryd, rydym mewn sefyllfa anobeithiol lle nad yw mynediad at driniaethau sy'n defnyddio cyffuriau costus sy'n achub bywydau ar gael mewn ffordd deg neu gyfartal ledled Cymru. Mae cleifion sydd ag angen dybryd am gyffuriau i achub eu bywydau yn cael eu hatal gan eu Byrddau Iechyd Lleol rhag cael mynediad at y triniaethau sydd eu hangen arnynt ar gymaint o frys, gan arwain at ganlyniadau difrifol i'w hiechyd a'u disgwyliad oes. Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu eu gweithdrefnau o ran sancsiynu triniaethau costus ar unwaith. Yn ogystal â hyn, galwaf ar Lywodraeth Cymru i asesu anghenion pob claf fesul achos oherwydd bod y gofyniad presennol bod yr holl gyffuriau y gellir eu hariannu yn ymddangos ar restr o 'Gyffuriau Cymeradwy' yn rhy gul, ac yn atal cleifion rhag cael mynediad at driniaethau nad ydynt eto ar y rhestr triniaethau y mae meddygon ymgynghorol yn dweud y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd hirdymor a disgwyliad oes cleifion.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

Papur Briffio i'r y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2015

Petitions Committee | 13 September 2016

Rhif y ddeiseb: P-05- 699

Teitl y ddeiseb: Cronfa Triniaethau i Gymru – rhaid dod â'r Loteri Cod Post ynghylch lechyd i ben

Testun y ddeiseb: Un o'r datblygiadau pwysicaf a ddaeth o Gymru erioed oedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'n un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr ac mae'n rhaid i ni gadw gafael ynddo. Ar hyn o bryd, rydym mewn sefyllfa anobeithiol lle nad yw mynediad at driniaethau sy'n defnyddio cyffuriau costus sy'n achub bywyd ar gael mewn ffordd deg neu gyfartal ledled Cymru. Mae cleifion sydd ag angen dybryd am gyffuriau i achub eu bywydau yn cael eu hatal gan eu Byrddau Iechyd Lleol rhag cael mynediad at y triniaethau sydd eu hangen arnynt ar gymaint o frys, gan arwain at ganlyniadau difrifol i'w hiechyd a'u disgwyliad oes. Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu eu gweithdrefnau o ran sancsiynu triniaethau costus ar unwaith. Yn ogystal â hyn, galwaf ar Lywodraeth Cymru i asesu pob claf ac anghenion pob claf fesul achos oherwydd, ar hyn o bryd, rhaid i'r holl gyffuriau a ariennir fel rhan o'u triniaeth ymddangos ar restr o 'Gyffuriau Cymeradwy,' ac mae'r gofyniad hwn yn rhy gul ac mae'n atal cleifion rhag cael triniaethau nad ydynt eto ar y rhestr triniaethau ond a fyddai, yn ôl meddygon ymgynghorol, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd hirdymor a disgwyliad oes cleifion.

Cefndir

Arfarnu meddyginiaethau

Cyn y caiff meddyginiaethau newydd eu defnyddio fel mater o drefn i drin cleifion y GIG, cynhelir proses arfarnu i benderfynu a yw'r budd i gleifion yn cyfiawnhau'r gost.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) yn rhoi cyngor i'r GIG ynghylch effeithiolrwydd rhai meddyginiaethau sydd newydd eu trwyddedu, a hynny o safbwynt clinigol ac o safbwynt y gost. Mae sail statudol i'r cyngor hwn yng Nghymru a Lloegr, ac mae rheidrwydd cyfreithiol ar fyrddau iechyd Cymru i ariannu meddyginiaethau y bydd NICE yn eu cymeradwyo.

Un o gyfrifoldebau Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yw arfarnu meddyginiaethau newydd nad ydynt yn rhan o raglen waith NICE. Mae rheidrwydd cyfreithiol ar fyrddau iechyd Cymru i ariannu meddyginiaethau a gymeradwywyd gan AWMSG hefyd.

Cronfa Cyffuriau Canser

Yn Lloegr, mae'r Gronfa Cyffuriau Canser yn ariannu nifer o feddyginiaethau canser nad ydynt ar gael drwy'r GIG. Drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad, gwrthododd Llywodraeth Cymru alwadau i sefydlu cronfa debyg. Ym marn y Llywodraeth, roedd y gronfa'n gwahaniaethu yn erbyn cyflyrau iechyd eraill, a dywedodd nad yw cleifion yn Lloegr wedi cael mwy o feddyginiaethau newydd a chost effeithiol na chleifion yng Nghymru o ganlyniad i'r gronfa.

Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR)

Os nad yw meddyginiaeth benodol wedi'i chymeradwyo gan NICE neu AWMSG i'w defnyddio'n gyffredinol drwy GIG Cymru, gall clinigydd anfon Cais Cyllido Claf Unigol (IPFR) at fwrdd iechyd. Caiff y ceisiadau hyn eu hystyried yn ôl pa mor 'eithriadol' yw'r achos. Cyhoeddwyd polisi IPFR Cymru gyfan yn 2011, er mwyn ceisio sicrhau cysondeb yn y modd y gwneir penderfyniadau.

Mae'r broses hon wedi'i beirniadu'n gyson. Clywodd yr ymchwiliad canser a gynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad yn 2014 ei bod yn bosibl bod paneli IPFR y byrddau iechyd yn ymdrin â cheisiadau mewn ffyrdd gwahanol, ac argymhellodd y Pwyllgor fod panel IPFR cenedlaethol yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch ledled Cymru. Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad (a gyhoeddwyd yn 2014) a wnaeth nifer o argymhellion i gryfhau'r broses IPFR, ond nid oedd yn argymhell creu un panel IPFR ar gyfer Cymru gyfan.

Mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan wedi sefydlu llwybr ariannu posibl ar gyfer rhai triniaethau newydd yng Nghymru. Drwy'r broses hon, bydd modd comisiynu meddyginiaethau dros dro ar gyfer carfannau penodol o gleifion, cyhyd ag y bo'r gwneuthurwyr ymrwymo i gymryd rhan mewn arfarniad dilynol gan AWMMSG neu NICE. Rhagwelir na fyddai'r broses hon yn cael ei ddefnyddio yn aml. Un enghraifft o'r modd y defnyddiwyd y broses hon yn ddiweddar oedd y penderfyniad i ganiatáu i feddygon ddefnyddio docetaxel, y cyffur cemotherapi, yn gynharach i drin cleifion canser y brostad yng Nghymru.

Y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd

Ar [12 Gorffennaf, 2016](#), dywedodd Vaughan Gethin AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd, Lles a Chwaraeon, fod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â dau fesur i helpu i sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael yr un driniaeth lle bynnag y maent yn byw. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cronfa Triniaethau Newydd yng Nghymru, a ddylai fod yn weithredol erbyn Rhagfyr 2016:

Bydd £80 miliwn ar gael yn ystod oes y Llywodraeth hon i sicrhau bod meddyginiaethau newydd ar gael sy'n mynd i'r afael ag anghenion clinigol sydd heb eu diwallu, ac sy'n gam sylweddol ymlaen ar gyfer trin clefydau sy'n bygwth bywyd a chlefydau sy'n cyfyngu ar fywyd. Bydd hyn yn cael ei ddarparu yn gyson ar draws Cymru cyn gynted ag y bo modd yn dilyn argymhelliad cadarnhaol gan naill ai NICE neu AWMMSG.

Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y caiff adolygiad annibynnol o'r broses IPFR ei gynnal, gan nodi:

Mae proses IPFR GIG Cymru wedi ei gwella yn dilyn adolygiad yn 2013-14. Cynhelir adolygiad pellach yn awr i sicrhau gwell cysondeb o ran penderfyniadau ledled Cymru ac i wneud argymhellion ynghylch pa feini prawf clinigol y dylid eu cymhwyso wrth benderfynu pwy sy'n gymwys.

[...]Bydd yr adolygiad yn ystyried yn benodol y meini prawf eithriadoldeb clinigol a'r posibilrwydd o sefydlu un panel IPFR cenedlaethol.

Rwyf yn dymuno gweld adolygiad byr sy'n canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â'r materion hyn, a byddaf yn rhoi diweddariad pellach i'r Aelodau ym mis Medi.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn

yn cael eu diweddarau na'u diwygio o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Your ref P-05-699
Our ref VG/05837/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

SeneddPetitions@assembly.wales

21 August 2016

Dear Mike,

Thank you for your letter of 3 August, seeking my views on the petition raised by Angharad Roche.

I am committed to ensuring that all patients in Wales have equitable access to treatment that has proven clinical and cost effectiveness. This evidence-based approach utilises the independent expertise of the National Institute for Health and Care Excellence (NICE) and the All-Wales Medicines Strategy Group (AWMSG), which undertake robust, comprehensive appraisals of new medicines. It is our responsibility to ensure NHS resources are invested where the proven benefits are in balance with the cost. All medicines recommended by NICE or AWMSG are made available routinely where clinically appropriate. Since AWMSG was established in 2002, 84% of medicines appraised have received a positive recommendation and, in the last financial year, 96% of medicines appraised have been recommended for use in Wales.

We will continue to place the appraisal process at the centre of our evidence-based approach to medicines in Wales, ensuring people have access to effective treatment for their illness or disease. The new treatment fund I announced in July will support this approach by providing early access to innovative medicines, which offer new treatment options to people with life-long and life-limiting conditions. This new investment will provide health boards the time to plan and prioritise future funding from within their budgets. Work is progressing to refine the criteria and mechanisms needed to manage the fund effectively. I anticipate the fund will be operational by December.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 53

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Where a health professional believes a particular treatment that is not recommended is the most suitable, an application can be made under the NHS Wales protocol for the *Individual Patient Funding Request (IPFR)* process. This process involves an assessment of the clinical suitability for a non-recommended treatment with supporting evidence showing why the individual patient will gain more clinical benefit from it than the evidence base suggests; usually referred to as clinical exceptionality.

It is right that we have a process in Wales to enable access to treatments and devices not normally available via the NHS. Each health service in the UK has such a process, with clinical criteria to determine accessibility. The IPFR process has been streamlined and improved following the review in 2013-14. Last month, I announced my intention of arranging a further review looking specifically at the clinical exceptionality criteria and revisiting the issue of reducing the number of IPFR panels we have in Wales. The review will be undertaken by an independent panel and will draw on the expertise and experience of the system in Wales, including that of patients, and bring a fresh perspective from outside Wales. We have made good progress to establish the panel and I will be updating the National Assembly at the end of September.

Taken together, these measures build on our evidence-based approach to accessing new medicines and will help to ensure that patients in Wales have access to equitable treatment wherever they live.

I hope the committee finds this information helpful in considering Ms Roche's petition and may I suggest the committee considers the full text of my announcement "Access to New Medicines" dated 12 July, a copy of which is enclosed?

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Vaughan Gething'.

Vaughan Gething AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**STATEMENT
BY
THE WELSH GOVERNMENT**

TITLE *ACCESS to NEW MEDICINES*

DATE *12 July 2016*

BY *Vaughan Gething, Cabinet Secretary for Health, Well-being
and Sport*

In our manifesto, we made a commitment to improve the introduction of innovative treatments by establishing a new treatment fund in Wales. We also agreed with Plaid Cymru, as part of the Compact to Move Wales Forward, to undertake an independent review of the Individual Patient Funding Request (IPFR) process.

In Wales, we are proud to take an evidence-based approach towards the introduction of new medicines in the NHS.

New treatments are being discovered, licensed and approved for use in the NHS on an almost monthly basis, bringing with them the prospect of a cure or a better quality of life for people with life-long or life-limiting conditions.

Some of these new medicines come with a high price tag for the NHS, placing a responsibility on us to ensure our resources are invested where the proven benefit for patients is in balance with the cost. We will continue to take an evidence-based approach to determine which treatments should be routinely available in the Welsh NHS.

We rely on the expert and authoritative advice from the National Institute for Health and Care Excellence (NICE) and the All-Wales Medicines Strategy Group (AWMSG). Both these organisations undertake robust appraisals of new licensed medicines by assessing evidence of clinical effectiveness for patients against the cost to the NHS charged by the manufacturer.

Over the course of the last five years, we have invested in our own medicines appraisal programme to ensure that Wales can determine which new medicines should be available

in the NHS as quickly as possible, giving people access to the most clinically-effective and cost-effective new medicines.

Since the AWMSG was set up in 2002, it has provided advice on 286 new medicines, recommending 84% for use in NHS Wales. In 2015-16, 45 of the 47 medicines appraised were approved for use in Wales.

To improve the likelihood of a positive appraisal, we introduced the Wales Patient Access Scheme in 2012 to encourage the pharmaceutical industry to offer prices for new medicines more in balance with their clinical benefits. This has created new opportunities for new medicines to be routinely available in Wales. To date, 21 new medicines have been made available through this scheme.

New Treatment Fund

The new treatment fund will support the early introduction of the newest and most innovative high-cost medicines which have been recommended by NICE or AWMSG.

We will make £80m available over the life of this government to ensure new medicines, which address unmet clinical need and represent a significant step forward for the treatment of life-limiting and life-threatening diseases are available. This will be delivered consistently across Wales as soon as possible following a positive recommendation by either NICE or AWMSG.

The new treatment fund will meet the cost of these new medicines for a maximum of 12 months, giving health boards the time to plan and prioritise funding from within their budgets.

The fund has developed from our experience of making new high-cost treatments for a range of life-changing conditions available to people in Wales. Last summer, for example, the Welsh Government provided significant funding from its central reserves to enable the NHS to fund four new treatments for hepatitis C and a new treatment for a rare, genetic and progressive disease called aHUS. The medicines represented a major step forward in treatment and secured significant health and social benefits for patients.

It is essential the new treatment fund is operated transparently and is widely understood. During the summer we will be refining the criteria and mechanisms needed to manage the fund effectively. I anticipate the fund will be operational by December.

Most importantly, it will ensure patients in Wales have faster access to life-changing and life-saving treatments wherever they live.

Individual Patient Funding Request (IPFR) Process

Where a medicine or treatment has not been appraised or approved for use in NHS Wales, a clinician can apply, on their patient's behalf, for it to be made available via the individual patient funding request (IPFR) process.

It is right that we have a process in Wales to enable access to treatments and devices which are not normally available via the NHS. Each health service in the UK has such a process, with clinical criteria to determine accessibility.

The NHS Wales process has been improved following a review in 2013-14. A further review will now take place to ensure better consistency of decisions across Wales and make recommendations about what clinical criteria should be applied when determining eligibility.

I have discussed the scope for an independent review of the IPFR process with the health spokespeople of each of the parties represented in the National Assembly. There is general agreement for the review panel to draw on expertise and experience of the system in Wales and bring a fresh perspective from outside Wales. The patient perspective will also be an essential element of the review. The review will consider in particular the clinical exceptionality criteria and the possibility of a single national IPFR panel.

I want the review to be short and sharply focused to address these issues. I will provide a further update in September.

We will continue to place the appraisal process at the centre of our evidence-based approach to medicines in Wales; ensuring people have access to effective treatment for their illness or disease.

The new treatment fund will support this approach by providing early access to high-cost, innovative medicines, which offer new treatment options to people with life-long and life-limiting conditions.

We are also committed to reviewing the IPFR process to ensure it is both fair and consistent across Wales.

Taken together, these measures will help to ensure that patients in Wales have access to equitable treatment wherever they live.

Embargoed until after Vaughan Gething, Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport has delivered the statement.

Eitem 2.4

P-05-700 – Ariannu Cyllid Myfyrwyr ar gyfer Cyrsiau Ôl-raddedig.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Huw Rhys Norvill ar ôl casglu 33 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Mae llawer o bobl sy'n dymuno cael addysg y tu hwnt i lefel israddedig bellach yn cael eu rhwystro gan y ffaith ei bod yn ofynnol iddynt gael benthyciad banc er mwyn ariannu eu hastudiaethau.

Credaf y dylai'r Llywodraeth wneud mwy i sicrhau y gall pobl sy'n gweithio fforddio i barhau gyda'u haddysg. Ar hyn o bryd, mae hynny'n arwain at ddyled fawr, a hynny ond os ydynt yn gymwys ar gyfer benthyciad banc.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Tor-faen
- Dwyrain De Cymru

Cyllid ar gyfer Cyrsiau Ôl-raddedig

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2016
Petitions Committee | 13 September 2016

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-700

Teitl y ddeiseb: Ariannu Cyllid Myfyrwyr ar gyfer Cyrsiau Ôl-raddedig

Testun y ddeiseb: "Mae llawer o bobl sy'n dymuno cael addysg y tu hwnt i lefel israddedig bellach yn cael eu rhwystro gan y ffaith ei bod yn ofynnol iddynt gael benthyciad banc er mwyn ariannu eu hastudiaethau. Credaf y dylai'r Llywodraeth wneud mwy i sicrhau y gall pobl sy'n gweithio fforddio i barhau gyda'u haddysg. Ar hyn o bryd, mae hynny'n arwain at ddyled fawr, a hynny ond os ydynt yn gymwys ar gyfer benthyciad banc."

Cefndir

Mae'r sefyllfa o ran cyllid ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig yn 2016-17 yn wahanol yng Nghymru a Lloegr. Disgwylir i'r sefyllfa yng Nghymru newid ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18.

Y sefyllfa yn Lloegr

O 1 Awst 2016, gall myfyrwyr cymwys sy'n hano o Loegr ac yn dechrau cwrs Meistr amser-llawn neu ran-amser wneud cais am fenthyciad ôl-raddedig. Bydd myfyrwyr yn gallu benthycio hyd at £10,000 i dalu eu ffioedd a helpu gyda chostau byw. Bydd myfyrwyr cymwys:

- O dan 60 oed;
- Yn byw yn Lloegr fel arfer;
- Heb fod yn meddu ar radd Meistr neu gymhwyster uwch.

Ni fydd y benthyciad yn dibynnu ar incwm personol neu incwm teulu. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefan Llywodraeth y DU. [Cyllid ar gyfer astudiaeth ôl-raddedig yn Lloegr](#)

Y sefyllfa yng Nghymru

Ar hyn o bryd (ym mlwyddyn academiaidd 2016/17), nid oes cynllun tebyg yn bodoli ar gyfer benthyciadau ôl-raddedig yng Nghymru. Fodd bynnag, ym mis Medi 2015, dywedodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, mai dyma fyddai 'nod polisi' Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) fel ei unig asiant cyflenwi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr addysg uwch ac addysg bellach o Gymru. Cwmni cyfyngedig yw SLC a'i unig gyfranddalwyr yw pedair llywodraeth y DU. Mewn [llythyr dyddiedig 28 Medi 2015](#) at Jo Johnson AS, Gweinidog y DU dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth, dywedodd Huw Lewis:

- Cafodd newidiadau diweddar i'r fframwaith llywodraethu a nawdd y mae SLC yn gweithredu ynddo eu hysgogi gan fuddiannau Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau [y DU], a hynny ar draul y gweinyddiaethau datganoledig;
- Daeth y pedair adran nawdd yn y DU i 'ddealltwriaeth gyffredin' na ddylid rhoi unrhyw newidiadau polisi mawr ar waith nes bod SLC wedi sefydlogi ei allu i gyflawni ac wedi gosod systemau craidd newydd;
- O ganlyniad i alwadau 'sylweddol iawn' gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, ni lwyddodd SLC i ymateb i unrhyw geisiadau gan y gweinyddiaethau datganoledig ar gyfer blwyddyn academiaidd 2016/17.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch y [Cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd a graddau peirianeg, technoleg neu gyfrifiadureg rhan-amser](#). Amlinellodd yr ymgynghoriad gynllun benthyciadau dros dro arfaethedig i'w roi ar waith ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017/18 i gefnogi myfyrwyr ôl-raddedig Cymru. Cafodd yr achos dros newid ei gydnabod ym mharagraff 28:

28. Mae'r dystiolaeth ynglŷn â phwysigrwydd economaidd cynyddol cymwysterau ôl-radd, y cysylltiad rhwng cyfoeth, astudiaethau ôl-radd blaenorol a symudedd cymdeithasol, a'r sylw cynnar gan adolygiad Diamond ynglŷn â'r sefyllfa yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr, yn cyflwyno sail resymegol argyhoeddiadol o blaid darparu cymorth ariannol. Gall darpariaeth o'r fath gefnogi llyddiant amcanion llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Bydd cynllun interim arfaethedig Cymru yn debyg iawn i'r un yn Lloegr. Cynigir y bydd myfyrwyr cymwys sy'n hanu o Gymru yn gallu benthycio hyd at £10,000 i'w helpu i astudio'n amser-llawn. Rhaid eu bod yn bodloni'r canlynol:

- Nid ydynt dros 60 oed
- Nid ydynt eisoes yn meddu ar gymhwyster ôl-raddedig ar lefel gyfwerth ac
- Maent yn dilyn cwrs cymeradwy (cwrs a addysgir neu gwrs ymchwil).

Cynigir y canlynol: bydd ad-daliadau yn dechrau ar £21,000 (gyda'r trothwy hwn wedi'i rewi tan 2021); codir llog ar y mynegai prisiau manwerthu + 3%; a gwneir ad-daliadau ochr yn ochr ag unrhyw ad-daliadau dyledion israddedig.

Yr Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr, dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Ian Diamond

Disgwylir i adroddiad terfynol ac argymhellion [yr adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr](#) gael eu cyhoeddi ym mis Medi 2016. Un o flaenoriaethau allweddol yr adolygiad yw gwneud argymhellion clir ynghylch dyfodol cyllid tymor hwy a chryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer ôl-raddedigion Cymru.

Camau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn ystod [gwaith craffu'r Pwyllgor Busnes a Menter ar y Gyllideb Ddrafft](#) (14 Ionawr 2016), holwyd Julie James, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar y pryd, ynghylch cyflwyno benthyciadau ôl-raddedig. Wrth ymateb, dywedodd:

“The postgraduate loan situation has been a very fraught one. I’m sure you’ve seen that the Minister has made several public pronouncements about how distressed we are about the situation of the Student Loans Company and, in fact, Chair, I’d like to suggest, if I may—and forgive me if it’s a bit cheeky—that perhaps the committee would like to ask the Student Loans Company chief executive and chair, to come down and speak to you personally about why they have not been able to support Wales in this next financial year in the way that they’ve supported England, because, quite frankly, we’re very angry about it. So, what they’ve done is that they’ve responded to pressure from English Ministers to do a postgraduate loan, and we have been told categorically that they cannot do that for us in the same period and I just think that that’s not acceptable.”

Aeth yn ei blaen i ddweud:

“So, the answer to your question is: they know that we want to do it as soon as possible. We would have liked to do it now. We haven’t been able to, just for the administrative problems that they’ve had, but we are on record as saying that we’d like to do it as soon as possible.”

Yn dilyn hyn, ysgrifennodd y Pwyllgor Menter a Busnes at y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac at Weinidog y DU dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth (3 Chwefror 2016) yn gofyn am eu

hasesiad o'r materion. Yn ei ymateb (8 Mawrth 2016), dywedodd Jo Johnson, Gweinidog Gwladol y DU dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth ar y pryd wrth y Pwyllgor:

The SLC has a unique operating status as the joint delivery partner for all UK administrations in a devolved policy area. The Company's shareholders are also its customers, and the size of each Administration's shareholding aligns to the contribution it makes to the SLC's operating costs. BIS owns 85 % of the company and fund approximately 85% of its operating costs.

Hefyd

Your letter states that it was Wales' policy goal to implement a Postgraduate Loans product in AY16/17. This was not explicitly communicated to BIS officials before the SLC's commission was finalised in July 2015. As documented in the minutes of a quadrilateral meeting between officials from BIS and the DAs on 8 June 2015, Welsh Officials confirmed that the timing of the Diamond Review meant that the earliest timing for a Postgraduate Loan product to be implemented in Wales was AY17/18.

I am pleased that the UK Administrations have been able to work together in recent months to deliver improvements to the SLC's governance arrangements and commissioning process. My

Mae'r ymateb gan Christian Brodie, Cadeirydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr wedi'i gyhoeddi yma: [Tudalen 58, llythyr gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr](#).

Yn ei llythyr at y Pwyllgor Deisebau, dywedodd Kirsty Williams ei bod yn disgwyl i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr fod mewn sefyllfa i redeg cynllun benthyciadau dros dro ar gyfer myfyrrwyr sy'n huanu o Gymru yn 2017.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/05551/16

Mike Hedges AM
Assembly Member for Swansea East
Chair - Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

seneddpetitions@assembly.wales

15 August 2016

Dear Mike

Thank you for your letter of 4 August regarding a petition on postgraduate funding from Huw Rhys Norvill.

Unfortunately, a Student Finance Wales (SFW) postgraduate loan scheme could not be implemented for Welsh students in academic year 2016/17 because of resource issues within the Student Loans Company (SLC), but on 3 March 2016 the Welsh Government published a consultation which closed on 26 May 2016. This consultation outlined a proposed interim loan scheme to be implemented for academic year 2017/18 to support Welsh postgraduate students.

<http://gov.wales/consultations/education/support-for-postgraduate-study-and-part-time-engineering/?skip=1&lang=en>

I expect the SLC to be in a position to run the scheme for Welsh domiciled students in 2017.

Professor Sir Ian Diamond and a panel of experts are also considering postgraduate support as part of a wider review into higher education and student finance. The 'Summary of Evidence' was published in December 2015 and can be found at:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/151215-review-of-higher-education-funding-and-student-finance-arrangements-in-wales-call-for-evidence-summary-of-responses-en.pdf>.

The final report is due to be published this September.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Funding options are therefore limited for Welsh students intending to start Masters courses this year. One option to consider would be deferring entry (with the University's agreement) until AY 2017/18 when a postgraduate loan scheme should be available, or consider a part-time option in 2016/17. Some universities offer a postgraduate bursary depending on the subject area.

There are certain educational trusts and charities that may be prepared to assist by means of small grants or loans. There are standard lists in most public reference libraries including the Educational Grants Directory.

As you have indicated, if no other funding is available, and subject to eligibility, a Professional and Career Development Loan (PCDL) can help to pay for course fees and any associated costs. However, the course provider and course has to be listed on the PCDL register. Further information is available at: <https://www.gov.uk/career-development-loans/overview> or by contacting a careers adviser on 0800 100 900. The need to take up this type of commercial loan should be much reduced in academic year 2017/18 when the SFW scheme is implemented and it is likely that the Diamond review will also give a clear steer about postgraduate support.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

P-05-701 – Gwelliannau i Ddiogelwch y Ffordd ar Hyd Cefnffordd yr A487 Rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, i Gynnwys Mannau Pasio.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Maldwyn Lewis ar ôl casglu 93 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Yn dilyn digwyddiadau niferus ar hyd cefnffordd yr A487 yn enwedig rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, cyflwynaf ddeiseb i Lywodraeth Cymru i wneud gwelliannau ar hyd y ffordd arfordirol hon, yn cynnwys manau pasio mewn amrywiol leoliadau, er mwyn lliniaru traffig yn cronni y tu ôl i gerbydau araf. Rwyf o'r farn y byddai cael manau pasio wedi'u lleoli mewn lleoedd strategol yn lleihau rhwystredigaeth gyrrwyr a chymryd risgiau wrth geisio goddiweddyd cerbydau eraill.

Pan fydd y gefnffordd hon rhwng Abergwaun a Chaerdybi wedi'i chau o ganlyniad i ddigwyddiad, mae'r dargyfeiriad ar hyd isffyrdd a all fod yn hunllefus, yn enwedig pan fydd Cerbydau Nwyddau Trwm, bysiau a choetsis yn cwrdd â'i gilydd wrth ddod o gyfeiriadau gwahanol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Deiseb: Gwelliannau i Ddiogelwch y Ffordd ar Hyd Cefnffordd yr A487

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2016
Petitions Committee | 13 September 2016

Papur Briffio:

Rhif y ddeiseb: P-05-701

Teitl y ddeiseb: Gwelliannau i Ddiogelwch y Ffordd ar Hyd Cefnffordd yr A487 Rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, i Gynnwys Mannau Pasio

Testun y ddeiseb:

Yn dilyn digwyddiadau niferus ar hyd cefnffordd yr A487 yn enwedig rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, cyflwynaf ddeiseb i Lywodraeth Cymru i wneud gwelliannau ar hyd y ffordd arfordirol hon, yn cynnwys manau pasio mewn amrywiol leoliadau, er mwyn lliniaru traffig yn cronni y tu ôl i gerbydau araf. Rwyf o'r farn y byddai cael manau pasio wedi'u lleoli mewn lleoedd strategol yn lleihau rhwystredigaeth gyrywyr a chymryd risgiau wrth geisio goddiweddyd cerbydau eraill.

Pan fydd y gefnffordd hon rhwng Abergwaun a Chaerdybi wedi'i chau o ganlyniad i ddigwyddiad, mae'r dargyfeiriad ar hyd isffyrdd a all fod yn hunllefus, yn enwedig pan fydd Cerbydau Nwyddau Trwm, bysiau a choetsis yn cwrdd â'i gilydd wrth ddod o gyfeiriadau gwahanol.

Cefndir

Mae cefnffordd yr A487 yn llunio rhan o'r rhwydwaith o gefnffyrdd rhwng y gogledd a'r de sy'n cysylltu Abergwaun yn Sir Benfro â rhannau gogleddol Cymru. Mae'n ymuno â'r A470 yn Cross Foxes ger Dolgellau, ac yn ailymddangos fel yr A487 i'r gogledd o Drawsfynydd. Mae map o rwydwaith cefnffyrdd Cymru ar gael [yma](#).

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys yr A487. Mae'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw a gweithredu'r rhwydwaith yn gorwedd gydag [Asiant Cefnffyrdd De Cymru](#) (Abergwaun i Aberteifi) ac [Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru](#) (i'r gogledd o Aberteifi).

Mae [gwefan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru](#) yn disgrifio'r ffordd:

Mae'r A487 yn cario lefelau sylweddol o Gerbydau Nwyddau Trwm gydol y flwyddyn a thraffig twristiaid trwm yn ystod cyfnod yr haf a thraffig cymudwyr mewn ardaloedd lleol. Mae'r A487 yn darparu coridor ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus, gwasanaethu'r trefi a'r pentrefi cyfagos, busnesau gwledig, ysgolion a gweithgareddau hamdden.

Safon ffordd sengl sydd i'r rhan fwyaf o goridor yr A487.

Mae'r [Sefydliad Diogelwch ar y Ffyrdd](#), elusen yn y DU i leihau nifer y marwolaethau ar ffyrdd, yn bartner i'r [Rhaglen Asesu Ffyrdd Ewropeaidd \(EuroRAP\)](#), cymdeithas ryngwladol ddielw sydd â'r diben o hyrwyddo ffyrdd mwy diogel. Cyhoeddodd y Sefydliad Diogelwch ar y Ffyrdd ganlyniadau blynyddol EuroRAP ar gyfer Prydain yn asesu diogelwch y ffyrdd, **gan gynnwys map risg** yn darparu asesiad o'u diogelwch. Mae adroddiadau blaenorol, gan gynnwys y rhai ar gyfer [2013](#), [2014](#) a [2015](#), ar gael ar wefan y Sefydliad.

Mae'r mapiau risg yn darparu graddfa risg pum lefel yn amrywio o ffyrdd risg isel i rai risg uchel, gan ddangos y risg ystadegol o farwolaeth neu anaf difrifol ar y ffordd. Mae'r Sefydliad yn disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddir:

The risk is calculated by comparing the frequency of road crashes resulting in death and serious injury on every stretch of road with how much traffic each road is carrying. For example, if there are 20 crashes on a road carrying 10,000 vehicles a day, the risk is 10 times higher than if the road has the same number of collisions but carries 100,000 vehicles.

Yn 2013, aseswyd yr A487 fel ffordd risg canolig o dde-orllewin Cymru i Ddolgellau, ac fel ffordd risg isel-canolig ar gyfer gweddill y ffordd. Yn 2014, cynyddwyd y risg i ganolig i uchel i Ddolgellau, ac i risg canolig am weddill rhan ogleddol y ffordd. Mae'r map ar gyfer 2015 yn dangos bod y ffordd yn un risg canolig ar ei hyd.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae [Fframwaith Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru](#), a gyhoeddwyd yn 2013, yn nodi targedau diogelwch ffyrdd y Llywodraeth a'r camau gweithredu cysylltiedig. Erbyn 2020, mewn perthynas â holl ffyrdd Cymru, mae Llywodraeth Cymru am weld yr hyn a ganlyn o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer 2004–2008:

- 40% yn llai o bobl yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru;
- 25% yn llai o yrwyr beiciau modur yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru; a
- 40% yn llai o bobl ifanc (16–24 oed) yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru.

Mae'r fframwaith yn nodi “grwpiau agored i niwed” ac yn ystyried “achosion gwrthdrawiadau”, adeiladu “ffyrdd mwy diogel”, yn ogystal â dulliau gweithredu a threfniadau rheoli. O ran “ffyrdd mwy diogel”, mae'n nodi'r hyn a ganlyn: “anogir awdurdodau priffyrdd i ddefnyddio'r

dystiolaeth sydd ar gael am wrthdrawiadau i ddatblygu mesurau peirianeg a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch ar y ffyrdd”.

Mae [Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol](#) Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i “[g]yflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd ar gyfer Cymru” hyd at “2020 a thu hwnt”, ac i ddarparu “rhaglen o welliannau diogelwch ar y ffyrdd y tu allan i ysgolion ar y gefnffordd”. Mae'r cynllun yn rhestru dau gynllun cefnffyrdd ar yr A487: y ffordd osgoi rhwng Caernarfon a Bontnewydd, a Phont Dyfi ar yr A487. Y bwriad yw i'r ddau gael eu cwblhau erbyn 2019. Ceir rhagor o wybodaeth am y ddau gynllun ar [wefan y Llywodraeth](#). Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn rhestru lleihau nifer y marwolaethau ymysg yr amcanion ar gyfer y naill brosiect a'r llall. Fodd bynnag, mae'r ddau i'r gogledd o Aberystwyth ac felly y tu allan i'r ardal a nodir fel blaenoriaeth benodol gan y deisebwyr.

Mae'r llythyr at y Cadeirydd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith ynghylch y ddeiseb yn nodi bod cefnffyrdd canolbarth Cymru, gan gynnwys yr A487, yn cael eu harolygu i weld a ellir cyflwyno cyfleoedd i oddiweddyd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd yr arolwg yn ystyried a yw trefniadau “2+1” yn bosibl, yn amodol ar gyllid, a bydd yn gallu cyflwyno'r canfyddiadau yn ddiweddarach eleni.

Mae ffordd “2+1” yn cynnwys dwy ffordd sy'n mynd i'r un cyfeiriad ac un ffordd yn wynebu'r ffordd arall, sy'n darparu cyfleoedd i oddiweddyd i'r ceir sy'n teithio ar y ddwy ffordd sydd ochr yn ochr, ond yn gwahardd goddiweddyd ar y ffordd sengl. Gellir cyfnewid y rhain ar wahanol bwyntiau ar hyd y ffordd, lle bo hynny'n bosibl, sy'n caniatáu goddiweddyd i'r naill gyfeiriad a'r llall.

Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Trafodaethau yn y Cyfarfod Llawn

Mae'r drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn am yr A487 ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad wedi canolbwyntio ar gynlluniau i ddarparu ffordd osgoi a phont Dyfi, a drafodir uchod.

Ar 4 Ebrill 2014, cododd Elin Jones AC y mater o ddiogelwch ar yr A487 o amgylch yr ysgol yn Llanarth, gan awgrymu nad yw'n briodol cael terfyn cyflymder o 40mya ar gefnffordd ger ysgol. Cyfeiriodd y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd at arolwg o ysgolion ar y gefnffordd gan ddweud bod hyn yn un o'r materion y byddai'n ei ystyried.

Y Pwyllgor Deisebau

Trafododd y Pwyllgor Deisebau yn y Pedwerydd Cynulliad ddeiseb yn galw am “[d]erfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion”. Trafodwyd y ddeiseb am y tro cyntaf ym mis Hydref 2012 a chafodd ei chau ym mis Medi 2013 ar ôl cael

cadarnhad gan y Gweinidog ar y pryd bod bwriad i gyflwyno terfyn cyflymder o 40mya yn gynnar yn 2014.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Your ref P-05-701
Our ref KS/06088/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

16 August 2016

Dear Mike,

Thank you for your letter of 4th August regarding P-05-701 Road Safety Improvements Along the A487 Trunk Road between Cardigan and Aberystwyth, to Include Passing Places.

Ensuring the safety and reliability of the strategic road network is my primary transport concern and we regularly monitor collision data to establish the need for road safety improvements.

My officials are currently reviewing the trunk road network in Mid Wales to identify locations where it may be possible to introduce safe overtaking opportunities. The A487 along with the other corridors are being surveyed to determine where "2+1" arrangements are possible and which will deliver maximum benefits in terms of improving road safety and journey reliability. I hope to be in a position later this year to report on the findings of this review and I am confident, subject to availability of funding, the programme of improvements identified will go towards addressing the concerns expressed by the petitioners.

Yours ever,

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 69



5th September 2016

Mike Hedges AM
Chair- Petitions Committee
Welsh Assembly Government
Tŷ Howell
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Your Ref P-05-701

Re: Road Safety Improvements along the A487 Trunk Road from Cardigan to Aberystwyth.

Dear Chair and Petitions Committee,

As the principal petitioner and a Ceredigion person I write in an attempt to give you some reasons for my action to petition.

1. The A487 runs from Fishguard to Holyhead along the Cardigan Bay, it is the main artery, backbone running North / South and Vice Versa and is essential for trade, tourism, commuters and attracting investment into the County and it therefore needs to be fit for purpose.
2. There is no alternative 'A' road heading North / South and when there is an incident along this road, the diversion route usually means travelling along narrow 'B' and 'C' class roads. A road closure usually results in hours of disruption with confusion as drivers of HGV, PCV, cars, Caravans etc try to negotiate narrow back country lanes to reach their desired destination.
3. The volume of traffic has increased and the infrastructure has not evolved at the same rate. As quoted by a politician recently ' Wales is in danger of falling behind the UK in respect of transport Infrastructure'. Certainly I feel the A487 is falling behind.
4. The volume of HGV and PCV traffic has increased, and there are no guaranteed passing places between Cardigan and Aberystwyth or vice versa whereby an overtaking manoeuvre can be carried out without using the on-coming traffic lane. The only tract of dual carriageway is at Cardigan and this has a speed restriction of 40m.p.h.
5. As there are no dedicated passing places, drivers take risks to overtake slow moving vehicles at locations undesirable.
6. Visibility and safety at junctions along the A487. There are Cross Roads and Junctions which cause me concern or have been brought to my attention along the route including (but not an exhaustive list) :-
 - a. Gogerddan Cross Roads(north of Blaenporth);
 - b. Sarnau Junction with Rhydlewis;
 - c. Brynhoffnant Junction with Llangrannog;
 - d. The village of Plwmp and the Cross Roads there

- e. Synod Inn where the A486 Llandysul to New Quay and A487 intersect (although grateful improvements have been made along the A486, concerns have been raised that its very difficult to negotiate at this junction due to the volume of traffic.
 - f. Pen Croes Castell (North of Llanarth) visibility approaching this junction from Pencae is impossible (B4342).
 - g. Junction with Llanddeiniol (North of Llanrhystud)
 - h. Junction with A485 at Llanfarian.
 - i. Junction of A4120 (Devils Bridge Road) and B4340 with the A487
7. There have been other issues raised in respect of pedestrians crossing at various locations within villages along the A487; Blaenplwyf being one and Llanfarian being mentioned to myself.
 8. On the 11th March 2016 I made freedom of Information requests to the Emergency services; Police, Ambulance and Fire Services for figures relating to incidents that they have been in attendance during the last five years. The Ambulance Service noted they had attended to 257 incidents with 382 of their vehicles involved in providing services. The Fire Authority 110 appliances, the police did not provide details. The above incidents are ones where services were called to the scene, there are others where minor incidents have happened and the matters dealt between parties.

It should be noted that the coastline of Ceredigion between Cardigan and Aberystwyth has only the road infrastructure to rely on as a transport link No Railway or Metro !.

Having started the petition I'm quite proud to state that 99 people signed the on-line version and 860 signatures, were received via the written version a **Total of 959**, a statement in itself that people are asking for improvements.

I do not ask for by-passes built for villages, I don't ask for dual carriageways the length of the route, I don't ask for roundabouts or traffic lights at every junction; however I do ask for a study into making improvements which would allow safe overtaking lanes at sensible locations, make modifications at Junctions and Cross Roads in order to increase visibility and safety.

Currently there are tracts of land along the A487 undeveloped, some of them as wide grass verges, others running along straight lengths of road which in my opinion would seem suitable for allowing some improvements.

I understand that the A487 cannot be transformed overnight, but do ask for a forward work political commitment to improve our Main artery in order to Preserve Life, allow better investment, employment, tourism but above all Increase in Road Safety with reduction in incidents.

I thank you for your time in considering the petition.

Yours Faithfully



Maldwyn Lewis

CC:- Elin Jones AM; Ceredigion County Council.

Eitem 2.6

P-05-702 – Gofynion presenoldeb y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Melanie Rees ar ôl casglu 59 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Rwy'n galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio meini prawf presennol y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) ynghylch Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae'r meini prawf presenoldeb, perfformiad ac ymddygiad yn Ffurflen Cytundeb Dysgu yr LCA yn nodi bod yn rhaid i fyfyrwyr fodloni gofynion presenoldeb y coleg 100 y cant o ran y rhaglen y cytunwyd arni oni bai iddynt gael eu hatal rhag gwneud hynny gan salwch, neu reswm da arall y cytunwyd arno gan y coleg, yn ogystal â mynychu pob dosbarth ar yr amser cywir ac yn y lle cywir, gan gyflwyno'r holl waith erbyn y dyddiadau cau a bennwyd.

Mae'r meini prawf hyn yn gweithredu fel rhwystr sy'n atal oedolion ifanc sy'n ofalwyr rhag dilyn addysg bellach ac yn cyfrannu at nifer uchel yr oedolion ifanc sy'n ofalwyr sydd wedyn yn rhoi'r gorau i'w cyrsiau oherwydd gofynion eu rolau gofalu. Ceir tystiolaeth o hyn yng nghanfyddiadau'r gwaith ymchwil 'Time to Be Heard' sy'n dweud nad yw 21 y cant o'r 22,655 o oedolion ifanc sy'n ofalwyr yng Nghymru mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth a'u bod bedair gwaith yn fwy tebygol o adael y coleg na'r rhai sydd heb ymrwymadau gofalu.

O dan ganllawiau'r LCA ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyfrifoldebau gofalu a all effeithio ar allu'r oedolyn ifanc sy'n ofalwr i gymryd rhan mewn addysg, sy'n enghraifft o wahaniaethu ac sy'n cyfyngu ar ei ddewisiadau o ran gwireddu ei botensial yn llawn, hyrwyddo ei yrfa a gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

Er mwyn gostwng nifer yr oedolion ifanc sy'n ofalwyr nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth a chynyddu'r nifer sy'n dilyn addysg bellach a hynny gan gwblhau eu cyrsiau, credaf fod angen cydnabod rôl hanfodol oedolion ifanc sy'n ofalwyr drwy ystyried eu cyfrifoldebau gofalu drwy gyflwyno gofyniad presenoldeb is o 80 y cant.

Cynigiaf fod cwestiwn yn cael ei gynnwys ar ffurflen gofrestru'r LCA er mwyn nodi oedolion ifanc sy'n ofalwyr a chydabod y gall fod angen cymorth arnynt i ddilyn addysg bellach a dal ati, annog oedolion ifanc sy'n ofalwyr i gofrestru â Gwasanaeth Gofalwyr a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a chynorthwyo Llywodraeth Cymru i fonitro nifer yr oedolion ifanc sy'n ofalwyr yng Nghymru.

Gwybodaeth ychwanegol

Astudiaethau achos profiadau dyddiol gofalwyr ifanc:

Rwyf wedi gofalu am fy mam ers pan oeddwn i'n 11 oed. Oherwydd na all mam wneud llawer ei hun, fi sy'n gwneud yr holl waith tŷ, fi sy'n rhoi'r feddyginiaeth i fy mam bob dydd a fi sy'n mynd â hi i unrhyw apwyntiadau. Rydym yn byw 14 milltir o'r dref agosaf, felly mae'n cymryd amser hir i deithio i'r coleg ac yn ôl ar y bws. Rwyf yn fy nhrydedd flwyddyn yn y coleg. Rwy'n dibynnu llawer ar fy arian LCA, oherwydd bod mam yn cael budd-daliadau ac mae arian yn dynn. Pan fydd mam yn cael diwrnod gwael, rwy'n hwyr yn cyrraedd y dosbarth gan fy mod yn colli'r bws ysgol. Rwyf hefyd yn colli coleg oherwydd fy mod yn mynd â mam i'w hapwyntiadau meddygol. Oherwydd hyn, mae fy arian LCA wedi'i atal, sydd wedi golygu nad wyf wedi gallu prynu bwyd rai wythnosau, felly rwy'n credu y dylid caniatáu mwy o hyblygrwydd o fewn gofyniad presenoldeb yr LCA." (Gofalwr ifanc benywaidd 18 oed o Sir Gaerfyrddin)

Rwy'n gofalu am fy mam sydd â thiwmor ar yr ymennydd sydd wedi ei gadael bron yn ddall. Mae Dad yn gweithio swydd amser llawn, a gan mai fi yw'r hynaf o 8 o blant, fi yw'r prif ofalwr, a fi sydd hefyd yn edrych ar ôl fy mrodyr a chworydd. Rwy'n ei chael hi'n anodd ymdopi gan fy mod yn fy nhrydedd

flwyddyn yn y coleg. Rwy'n awyddus i gwblhau fy addysg, er yn ddiweddar rwyf wedi bod yn meddwl efallai y bydd yn rhaid i mi roi'r gorau iddi oherwydd fy mod yn ei chael hi'n anodd cadw lefel fy mhresenoldeb yn ddigon uchel ac rwyf weithiau'n hwyr yn cyflwyno aseiniadau. Rwy'n meddwl, felly, y byddai'n help pe bai mwy o hyblygrwydd i oedolion ifanc sy'n ofalwyr yng nghytundeb dysgu yr LCA fel na fyddai'n rhaid i mi hefyd boeni am fy LCA yn cael ei atal gan fy mod yn dibynnu ar yr arian hwn fel fy unig incwm." (Gofalwr ifanc benywaidd 18 oed o Sir Gaerfyrddin)

Rwyf wedi bod yn brif ofalwr i fy mam, sydd â phroblemau iechyd meddwl, ers i mi fod yn 16 oed, felly roedd yn rhaid i mi adael yr ysgol i ofalu amdani. Byddwn wedi hoffi parhau gyda fy addysg, ond mae arian yn dynn iawn ac roeddwn yn gwybod na fyddwn i wedi gallu cyflawni presenoldeb o 100 y cant oherwydd fy mod yn edrych ar ôl fy mam, felly gwn na fyddwn yn cael yr LCA. Os byddai'r rheolau'n wahanol ar gyfer oedolion ifanc sy'n ofalwyr, yna efallai y gallwn fod wedi mynd i'r coleg. Fodd bynnag, ar hyn o bryd rwy'n berson ifanc nad yw mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth." (Gofalwr ifanc gwrywaidd 16 oed o Sir Gaerfyrddin).

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Llanelli
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Newidiadau i Ofynion Presenoldeb

y Lwfans Cynhaliaeth Addysg

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2016

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-702

Teitl y ddeiseb: Gofynion presenoldeb o ran Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr

Testun y Ddeiseb: Rwy'n galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio meini prawf presennol y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) ynghylch Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae'r meini prawf presenoldeb, perfformiad ac ymddygiad yn Ffurflen Cytundeb Dysgu yr LCA yn nodi bod yn rhaid i fyfyrwyr fodloni gofynion presenoldeb y coleg 100 y cant o ran y rhaglen y cytunwyd arni oni bai iddynt gael eu hatal rhag gwneud hynny gan salwch, neu reswm da arall y cytunwyd arno gan y coleg, yn ogystal â mynychu pob dosbarth ar yr amser cywir ac yn y lle cywir, gan gyflwyno'r holl waith erbyn y dyddiadau cau a bennwyd.

Mae'r meini prawf hyn yn gweithredu fel rhwystr sy'n atal oedolion ifanc sy'n ofalwyr rhag dilyn addysg bellach ac yn cyfrannu at nifer uchel yr oedolion ifanc sy'n ofalwyr sydd wedyn yn rhoi'r gorau i'w cyrsiau oherwydd gofynion eu rolau gofalu. Ceir tystiolaeth o hyn yng nghanfyddiadau'r gwaith ymchwil 'Time to Be Heard' sy'n dweud nad yw 21 y cant o'r 22,655 o oedolion ifanc sy'n ofalwyr yng Nghymru mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth a'u bod bedair gwaith yn fwy tebygol o adael y coleg na'r rhai sydd heb ymrwymadau gofalu.

O dan ganllawiau'r LCA ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyfrifoldebau gofalu a all effeithio ar allu'r oedolyn ifanc sy'n ofalwr i gymryd rhan mewn addysg, sy'n enghraifft o wahaniaethu ac sy'n cyfyngu ar ei ddewisiadau o ran gwireddu ei botensial yn llawn, hyrwyddo ei yrfa a gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

Er mwyn gostwng nifer yr oedolion ifanc sy'n ofalwyr nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth a chynyddu'r nifer sy'n dilyn addysg bellach a hynny gan gwblhau eu cysiau, credaf fod angen cydnabod rôl hanfodol oedolion ifanc sy'n ofalwyr drwy ystyried eu cyfrifoldebau gofalu drwy gyflwyno gofyniad presenoldeb is o 80 y cant.

Cynigiaf fod cwestiwn yn cael ei gynnwys ar ffurflen gofrestru'r LCA er mwyn nodi oedolion ifanc sy'n ofalwyr a chynabod y gall fod angen cymorth arnynt i ddilyn addysg bellach a dal ati, annog oedolion ifanc sy'n ofalwyr i gofrestru â Gwasanaeth Gofalwyr a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a chynorthwyo Llywodraeth Cymru i fonitro nifer yr oedolion ifanc sy'n ofalwyr yng Nghymru.

Cefndir

Y LCA yw lwfans ariannol sydd ar gael i bobl ifanc 16, 17 a 18 mlwydd oed sy'n byw yng Nghymru, i'w hannog a'u cefnogi i barhau mewn addysg ar ôl oedran gadael ysgol gorfodol. Fe'i cyflwynwyd gyntaf ar gyfer pobl ifanc 16 mlwydd oed yn 2004/05 a chafodd ei ymestyn i gynnwys pobl ifanc 17 mlwydd oed yn 2005/06 a phobl ifanc 18 mlwydd oed yn 2006/07.

Cafwyd [30,465 o geisiadau am LCA yn 2014/15](#). Cymeradwywyd 94 y cant o'r ceisiadau a gafwyd, gwrthodwyd 3 y cant ac roedd 2 y cant yn anghyflawn.

Caiff myfyrwyr cymwys lwfans wythnosol o £30 a delir bob pythefnos. Y sefydliadau unigol, lle y mae myfyrwyr yn cael eu LCA, sy'n gyfrifol am gyfarwyddo'r cwmni benthyciadau myfyrwyr (SLC) i fwrw ymlaen â thalu LCA y myfyriwr. Mae'r sefydliadau yn gofyn i'r cwmni benthyciadau myfyrwyr dalu myfyrwyr ar sail presenoldeb boddhaol a chyrraedd nodau dysgu y cytunwyd arnynt. Nodir y nodau dysgu hyn a'r targedau presenoldeb mewn Cytundeb Dysgu a lofnodir gan y myfyrwyr a'r sefydliad ar ddechrau'r cwrs (gweler isod).

Y cwmni benthyciadau myfyrwyr, o dan yr enw brand [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#), sy'n gyfrifol am reoli a thalu'r LCA yng Nghymru. Mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon gynlluniau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg, ond daeth Lloegr â'i chynllun i ben yn 2011, a sefydlu [Cronfa Bwrsari ar gyfer pobl ifanc 16 -19 mlwydd oed](#) yn ei le.

Nid yw'r LCA yn effeithio ar unrhyw arian y mae myfyrwyr yn ei ennill o swyddi rhan-amser nac unrhyw fudd-daliadau a delir i deuluoedd, fel y Budd-dal Plant, credydau treth, y credyd cynhwysol neu'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Meini prawf cymhwyster

Rhaid i fyfyrwyr cymwys fynychu ysgolion neu sefydliadau addysg bellach cydnabyddedig yng Nghymru neu mewn mannau eraill yn y DU.

Mae [Incwm yr aelwyd yn faen prawf allweddol](#) ar gyfer dyfarnu LCA. Ar hyn o bryd, ni all myfyrwyr gael LCA oni bai bod eu hincwm cartref yn £20,817 neu lai; neu'n £23,077 neu lai mewn amgylchiadau penodol (fel, bod dibynyddion ychwanegol yn byw ar yr aelwyd).

Rhaid bod cwrs y myfyriwr yn cael ei ystyried yn gymwys hefyd. Er mwyn i gwrs fod yn gymwys, rhaid iddo fod yn:

- gwrs academaidd neu alwedigaethol hyd at, a chan gynnwys, lefel 3; ac yn
- amser llawn yn yr ysgol, neu'n cynnwys o leiaf 12 awr dan arweiniad yn y coleg; ac
- am gyfnod o 10 wythnos o leiaf.

Mae [rhestr lawn o'r meini prawf](#) ar gyfer LCA ar gael ar-lein.

Nodwyd newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd o ran y LCA yn yr [Asesiad Effaith](#)

[Cydraddoldeb y Cynllun LCA \(Cymru\) 2014/15](#)(Saesneg yn unig). Nododd:

The SLC will assess applications made to the EMA Scheme where an applicant meets the eligibility criteria for age, income thresholds and residency, but is unable to meet other criteria (learning sessions at a recognised educational institution) of the Scheme due to the nature of their disability. Successful applicants will receive an equivalent award (of £30 per week).

Cytundebau Dysgu

Os bydd y myfyriwr yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd bydd yn rhaid iddo ymrwymo i Gytundeb Dysgu gyda'r coleg neu'r ysgol lle y bydd yn cynnal ei astudiaethau. Bydd cadw at y Cytundeb hwn yn sail i dalu LCA parhaus i'r myfyriwr.

O 2016/17 ymlaen, bydd y cwmni benthyciadau myfyrwyr yn darparu templed Cytundeb Dysgu gorfodol ar gyfer ei ddefnyddio gan sefydliadau. Mae hyn i sicrhau cysondeb, i helpu i wahaniaethu rhwng y cytundeb Lwfans Cynhaliath Myfyrwyr a chytundebau ar wahân y sefydliadau eu hunain ar gyfer myfyrwyr, ac i atgyfnerthu pwysigrwydd y cytundeb LCA. Y sefydliadau sy'n gweinyddu'r Lwfans sy'n gyfrifol am lenwi'r bylchau gyda'r myfyriwr.

Mae'r cwmni benthyciadau myfyrwyr hefyd yn darparu Canllawiau i'r Canolfannau Dysgu i gefnogi sefydliadau i ddrafftio eu Cytundebau Dysgu, ac i reoli agweddau eraill ar weinyddu'r Lwfans. Mae tudalennau 15–20 o'r Canllawiau hyn yn ymdrin ag absenoldebau. Noda:

Er mwyn cael LCA rhaid i'r myfyriwr fod wedi llofnodi ei gytundeb LCA ac, o ran yr wythnos y mae'r dyfarniad yn ymwneud â hi, fod wedi bod yn bresennol ym mhob sesiwn ddysgu mewn cysylltiad â'u cwrs cymwys, neu **os nad yw'r myfyriwr wedi bod yn bresennol ym mhob sesiwn ddysgu, bod yr ysgol neu'r coleg wedi awdurdodi eu habsenoldeb [pwyslais yr awdur].**

Aiff ymlaen i ddarparu enghreifftiau a allai fod yn 'rhesymau derbyniol ar gyfer awdurdodi absenoldebau'. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Teulu mewn argyfwng, fel yr angen i ofalu am aelod o'r teulu. (Gallai hyn fod yn bwysig i fyfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu e.e. gofawyr ifanc / oedolion sy'n ofalwyr ifanc sy'n gyfrifol am aelod o'r teulu); neu
- Apwyntiadau meddygol na ellir eu gwneud y tu allan i oriau ysgol neu goleg. (Yn achos gofawyr ifanc / oedolion sy'n ofalwyr ifanc, efallai y bydd angen i'r person y maent yn gofalu amdano fynd i apwyntiadau meddygol).

O'r herwydd, mae rhyw gymaint o ddisgresiwn ar gael i golegau benderfynu faint o amser y byddant yn ei ganiatáu fel absenoldeb awdurdodedig a pharhau i dalu LCA. Mae tudalen 21 y canllawiau yn nodi:

Pan fydd yr ysgol/coleg wedi penderfynu nad yw'r myfyriwr wedi bodloni'r meini prawf presenoldeb ar gyfer yr wythnos honno, ac na chaiff y taliad LCA wythnosol, mae gan y myfyriwr hawl i apelio i'r ysgol/coleg yn unig. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu a oes sail dros apelio yn y lle cyntaf.

Mae disgwyl i ysgolion a cholegau fod â phroses apelïadau eu hunain ar waith, a phroses sydd wedi'i chyhoeddi ac sydd ar gael i'w disgyblion/myfyrwyr.

Dylid nodi nad yw'r holl Nodiadau Cyfarwyddyd yn rhai cyhoeddus. Cânt eu darparu i sefydliadau sydd wedi cofrestru i weinyddu'r LCA yn unig, sydd â mynediad i borth diogel ar-lein y cwmni benthyciadau i fyfyrwyr.

Gwerthusiad y Lwfans Cynhaliath Addysg

Yn 2014 [cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werthusiad o'r Cynllun LCA](#). Ar y cyfan canfuwyd bod y LCA yn chwarae rhan gadarnhaol yn systemau addysg Cymru. Rhai argymhellion a allai fod o werth eu nodi yw:

- Argymhelliad 5 – y cytundebau dysgu yn cael eu cryfhau a'u gwneud yn fwy ystyrlon... Gellid hefyd gryfhau cytundebau dysgu drwy nodi'r gofynion am bresenoldeb o fewn y dogfennau.
- Argymhelliad 6 – bod canolfannau dysgu yn mabwysiadu polisiau mwy cyson yng nghyswllt gofynion presenoldeb derbynwyr LCA yn ogystal â mwy o gysondeb yn eu harferion i fonitro presenoldeb. Byddai hyn yn arwain at ddarpariaeth decach i dderbynwyr LCA, yn neilltuoel yn ymwneud â diffyg presenoldeb oherwydd salwch.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-702
Ein cyf/Our ref ARD/05238/16

Mike Hedges AM
Assembly Member for Swansea East
Chair - Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

17 August 2016

Dear Mike

Thank you for your letter of 4 August, regarding a petition submitted by Melanie Rees to the Petitions Committee, to consider amending the current Education Maintenance Allowance (EMA) criteria for Young Adult Carers (YACs) in Wales. The EMA Scheme falls within my portfolio.

I recognise the challenges that young carers and adult carers face and the important role they play in providing care to family members whilst they are studying.

My officials were aware of the petition and met (on 12 July) Melanie Rees, who runs the Young Adult Carer Project in Carmarthenshire, and a small group of YACs from the Project to discuss their concerns. A representative from our delivery partner, the Student Loans Company (SLC), the body delegated to administer the EMA (Wales) Scheme on behalf of the Welsh Ministers, also attended.

A number of options such as including a question in the EMA application were discussed with Melanie and the YACs. Officials are undertaking exploratory discussions with SLC to consider the practicalities, benefits and costs to amend the EMA application form to help identify young carers/YACs in future academic years (applications for academic year 2016/17 are already published and available to students). My officials have also contacted Carers Trust (Wales) who have agreed to take forward some of the issues with their Young Adult Carer Advisory group. The Trust will feed back comments to my officials in due course.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 80
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

In terms of attendance requirements, schools and colleges in Wales are responsible for their own attendance policies and, within reason, a level of discretion can be applied for EMA attendance. The SLC also provides guidance to those schools/colleges who administer EMA annually, setting out examples for authorised and non-authorised absences. Schools/colleges who run EMA are responsible for electronically submitting weekly attendance confirmations to SLC to allow the Company to release eligible payments to EMA students.

My officials also informed Melanie that, prior to her petition, a separate Young Carers Network in Wales, who met the then Health Minister in February 2016, had raised similar concerns in February 2016 about EMA. Following the Network's comments, positive steps were taken to help raise awareness of the issues. The SLC included a session as part of their annual Further Education Seminars (held in April 2016). Around 140 school/college representatives attended. SLC's EMA guidance for academic year 2016/17 has also been strengthened for schools/colleges, acknowledging the important role of young carers/YACs when schools/colleges are making informed decisions about authorised and non-authorised absences. The guidance was issued to those schools/colleges who administer EMA in July.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath.

Alun Davies AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Eitem 2.7

P-05-703 – Cynnig i ohirio'r Cyfyngiadau ar Bysgota yn Afonydd Cymru.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Alex Young ar ôl casglu 641 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cynnig dal a rhyddhau 10 mlynedd ar gyfer yr holl eogiaid ar afonydd Cymru yn cael ei ohirio ar unwaith, er mwyn i asesiad effaith llawn a phriodol gael ei wneud o effeithiau ar fusnesau lleol a'r economi twristiaeth, ar adeg pan mae economi Cymru eisoes yn dioddef oherwydd y dirywiad mewn cynhyrchu dur. Rydym yn credu bod y mater hwn yn gofyn am sylw brys.

Yr wyf yn gadeirydd Clwb Pysgota Abergwili, a leolir yng Nghaerfyrddin ac rwy'n poeni am gynigion diweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru i osod polisi dal a rhyddhau yn unig deng mlynedd ar gyfer eog ar holl afonydd Cymru, heb unrhyw dystiolaeth wyddonol bod pysgotwyr pleser yn gyfrifol am y dirywiad mewn stoc eogiaid mudol.

Mae canran uchel o aelodau'n clwb yn teithio i mewn i Gymru gan ddod â referniw mawr ei angen i'r economi leol. Isod fe welwch ddarnau o adroddiad technegol Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun sy'n tynnu sylw at y colledion a allai ddigwydd, yn dilyn pysgotwyr yn peidio â dod i Gymru, fel y disgwylir, os bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwrw ymlaen â rhaglen dal a rhyddhau eog 10 mlynedd.

Gwybodaeth ychwanegol

Isod ceir darnau o 'ymgyngoriad' diweddar gyda physgotwyr, yng Ngorllewin Cymru: –

NRW B B 40.15 Atodiad 2 ADRODDIAD TECHNEGOL: OPSIYNAU RHEOLI I FYND I'R AFAEL A'R DIRYWIAD MEWN STOCIAU EOG A RHAI SEWIN YNG NGHYMRU

7. Mae eogiaid a sewin yn rhywogaethau eiconig a phwysig yn ein hafonydd. Maent yn cefnogi pysgodfeydd hamdden sy'n dod â budd economaidd (mwy na £74 miliwn o wariant blynyddol yng Nghymru, gan gefnogi tua 1,500 o swyddi yng Nghymru a £32 miliwn o incwm aelwydydd, Mawle a Peirson, 2009), yn aml i gymunedau gwledig, ac yn cael eu cydnabod yn eang fel dangosyddion ansawdd amgylcheddol da. Mae eog yn cefnogi dynodiadau chwe afon sydd wedi'u dynodi yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Y rhain yw'r afonydd ACA, fel a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/ EEC) yng Nghymru. Mae'r eog hefyd yn nodwedd o safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren (ACA, a safle a ddynodwyd hefyd yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig o dan y Gyfarwyddeb Adar a safle Ramsar).

8. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu amcanion ar gyfer NRW i gyfrannu at amcanion ar gyfer rheoli pysgodfeydd dŵr croyw, yn fras trwy hyrwyddo cadwraeth a chynnal yr amrywiaeth o bysgod mudol a dŵr croyw, a thrwy wella'r cyfraniad y mae pysgodfeydd mudol a dŵr croyw yn ei wneud i'r economi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig anghysbell ac mewn ardaloedd gyda lefelau isel o incwm. Mae gan NRW hefyd ddyletswyddau statudol ar gyfer pysgodfeydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (1995), a rhwymedigaethau fel y nodir yng nghyfrifoldebau Llywodraeth y DU i NASCO (Sefydliad Cadwraeth Gogledd yr Iwerydd) y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi'i arwyddo.

Ar ben hynny, mae'r ateb i gais Rhyddid Gwybodaeth diweddar -cyf: ATI - 09971a - wedi'i nodi isod: -

Fel rhan o unrhyw achos dros fesurau rheoli pysgota newydd arfaethedig mae'n rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol. Gallaf gadarnhau nad yw hyn wedi digwydd eto, felly mae rheoliad 12.4(a) o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn gymwys.

Dim gwybodaeth yn cael ei chadw. Nid oes gennym ddyddiad pryd y disgwylir y bydd hyn yn cael ei gwblhau - fodd bynnag, rydym yn gobeithio ei gwblhau yn ddiweddarach eleni.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Medi 2016

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-703

Teitl y ddeiseb: Cynnig i ohirio'r Cyfyngiadau ar Bysgota yn Afonydd Cymru.

Testun y Ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cynnig dal a rhyddhau 10 mlynedd ar gyfer yr holl eogiaid ar afonydd Cymru yn cael ei ohirio ar unwaith, er mwyn i asesiad effaith llawn a phriodol gael ei wneud o effeithiau ar fusnesau lleol a'r economi twristiaeth, ar adeg pan mae economi Cymru eisoes yn dioddef oherwydd y dirywiad mewn cynhyrchu dur. Rydym yn credu bod y mater hwn yn gofyn am sylw brys.

Yr wyf yn gadeirydd Clwb Pysgota Abergwili, a leolir yng Nghaerfyrddin ac rwy'n poeni am gynigion diweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru i osod polisi dal a rhyddhau yn unig deng mlynedd ar gyfer eog ar holl afonydd Cymru, heb unrhyw dystiolaeth wyddonol bod pysgotwyr pleser yn gyfrifol am y dirywiad mewn stoc eogiaid mudol.

Mae canran uchel o aelodau'n clwb yn teithio i mewn i Gymru gan ddod â refeniw mawr ei angen i'r economi leol. Isod fe welwch ddarnau o adroddiad technegol Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun sy'n tynnu sylw at y colledion a allai ddigwydd, yn dilyn pysgotwyr yn peidio â dod i Gymru, fel y disgwylir, os bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwrw ymlaen â rhaglen dal a rhyddhau eog 10 mlynedd.

Cefndir

Mae 31 o afonydd yng Nghymru sy'n cynnwys [stociau eog](#) (Saesneg yn unig), ac o'r rhain caiff [23 eu dynodi fel prif afonydd eogiaid](#). O'r 23 o afonydd hyn mae pedair wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd Ewropeaidd. Mae terfynau cadwraeth a thargedau rheoli wedi'u sefydlu ar gyfer y prif afonydd.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoli pysgodfeydd mewndirol a pysgodfeydd eogiaid yng Nghymru. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru, fel awdurdodau pysgodfeydd eraill yn y DU, bwerau i lunio is-ddeddfau cenedlaethol a lleol i gynorthwyo gyda chadwraeth stociau pysgod yn afonydd Cymru. Mae'r is-ddeddfau hyn yn rhoi nifer o gamau rheoli ymdrech ar waith i sicrhau bod defnyddio stociau'n digwydd ar lefelau cynaliadwy. Gall y rhain gynnwys camau fel cyfyngiadau o ran y gêr y gellir eu defnyddio i bysgota gwahanol rywogaethau, yr adegau o'r flwyddyn y gellir bysgota gwahanol rywogaethau ac o ran y lleoliadau y gall gwahanol rywogaethau gael eu bysgota. Gelwir un dull o reoli ymdrech o'r fath yn ddull dal a rhyddhau. Mae hwn yn gosod gofyniad ar i bob pysgotwr ddychwelyd unrhyw bysgod y mae'n eu dal i'r afon.

Mae [nifer o is-ddeddfau cenedlaethol a lleol](#) eisoes ar waith ar gyfer pysgodfeydd eogiaid yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys is-ddeddf genedlaethol sy'n datgan y dylai unrhyw eogiaid a gaiff eu dal yng Nghymru cyn 16 Mehefin 2016 gael eu dychwelyd i'r afon. Mae is-ddeddfau lleol dal a rhyddhau hefyd eisoes ar waith ar yr Afon Gwy, yr Afon Taf a'r Afon Elái.

Mae Canolfan yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Gwyddor Acwafeithrin (CEFAS) ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru, ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, yn llunio [adroddiad blynyddol ar stociau eogiaid a pysgodfeydd](#) (Saesneg yn unig) yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddwyd asesiad rhagarweiniol ar y lefelau stoc ar gyfer 2015 ym mis Mai 2016. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth flynyddol am statws stoc y prif afonydd eogiaid yng Nghymru a Lloegr. Caiff y statws stoc ei fesur yn ôl pedwar categori:

- Caiff afonydd lle y mae siawns y bydd 95 y cant o leiaf o'r targedau cadwraeth a rheolaeth yn cael eu cyrraedd eu dosbarthu fel rhai 'ddim mewn perygl';
- Caiff afonydd lle y mae siawns y bydd rhwng 50 a 95 y cant o leiaf o'r targedau cadwraeth a rheolaeth yn cael eu cyrraedd eu dosbarthu fel rhai 'yn ôl pob tebyg ddim mewn perygl';
- Caiff afonydd lle nad oes ond siawns y bydd rhwng 5 a 50 y cant o'r targedau cadwraeth a rheolaeth yn cael eu cyrraedd eu dosbarthu fel rhai 'mewn perygl yn ôl pob tebyg'; a
- Chaiff afonydd lle y mae llai na 5 y cant o siawns y byddant yn cyrraedd targedau cadwraeth a rheolaeth eu dosbarthu fel rhai 'mewn perygl'.

O blith y 23 o brif afonydd eogiaid yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod pob un ond dwy ohonynt wedi'u dosbarthu fel 'mewn perygl' neu 'mewn perygl yn ôl pob tebyg'. Bernir bod y pedair afon a ddynodwyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig mewn statws cadwraeth anffafriol. Mae rhestr o'r dosbarthiadau ar gyfer yr afonydd unigol ar gael [ar dudalen 65 o adroddiad CEFAS](#).

Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb dros reoli pysgodfeydd eogiaid yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r corff wedi bod yn mynd drwy broses o ystyried pa gamau ychwanegol y gall fod eu hangen, os o gwbl, i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn stociau eog yn afonydd Cymru.

Ar 17 Mawrth 2016, cyflwynwyd [papur](#) i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd gan y corff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i fynd i'r afael â'r dirywiad o ran stociau, ac yn amlinellu cynigion ar gyfer gweithredu pellach. Roedd y papur yn nodi, er nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn mai pysgota â gwialenni a rhwydi yw prif achos y dirywiad o ran stociau, mae'n credu y gellir cynyddu nifer y pysgod sy'n goroesi i'r cam silio mewn afonydd yng Nghymru, yn y tymor byr, 'dim ond os bydd pysgotwyr gwialen a rhwyd yn rhoi'r gorau i'r lladd yn gyfan gwbl'. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan bod dal a rhyddhau yn ffafriol o'i gymharu â chau pysgodfeydd yn gyfan gwbl, gan fod hynny'n galluogi llawer o fanteision cymdeithasol-economaidd y pysgodfeydd i barhau.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgan ei fod yn ymgynghori'n ffurfiol ac yn anffurfiol â physgotwyr a grwpiau pysgodfeydd lleol ar y camau posibl y gellir eu cymryd i reoli stociau eogiaid, gan gynnwys drwy dosbarthu holiadur. Mae'r corff yn disgwyl cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion i fynd i'r afael â'r mater yn ystod hydref 2016 neu ar ddechrau 2017. Y cynharaf y gallai unrhyw fesurau newydd posibl fod ar waith fyddai'r tymor pysgota 2017.

Camau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Nid yw'r mater hwn wedi cael ei ystyried gan y Cynulliad eto.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-703
Ein cyf/Our ref LG/05846/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

August 2016

Dear Mike

Thank you for your letter of 4 August, regarding petition P-05-703, a proposal to postpone the restrictions on fishing in Welsh rivers.

Firstly, I must emphasise salmon stocks have been in decline for a number of years throughout all North Atlantic countries. The 2015 salmon stock assessment report undertaken by Natural Resources Wales (NRW) shows most Welsh rivers are now "at risk" and under international conventions, there is an obligation on statutory environmental bodies, including NRW, to address the decline of this iconic species.

This is primarily an issue for Natural Resources Wales (NRW) and Motor Sports Association (MSA). I am aware the two bodies met recently and NRW made a proposal to the MSA who are still considering the offer. Discussions are ongoing and I am hopeful an agreement will be reached shortly.

Regards
Lesley

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 117

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-05-691 A Fair Deal for Forest Rallying. Correspondence – Petitioner to Clerking team.07.07.16

Thank you.

I would be happy to attend on Tuesday next week to have a discussion informally about this case.

Since the petition was submitted, we have developed a proposal independently to try and bring an alternative solution to this matter. This matter is still ongoing and neither the MSA or NRW have reached an agreement on the future plans as yet. Dialogue is continuing between both sides.

Therefore I strongly believe that the matter remains of importance to the Assembly and I would be happy to help explain the situation in more detail.

Please let me know what is required.

Thanks

Jamie

P-05-654 – Gwrthwynebu'r Cynigion Presennol o ran Dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer Llamhidyddion.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Stephen De-Waine ar ôl casglu 109 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i newid y ffordd y mae ffiniau presennol yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig ar gyfer Llamhidyddion yn cael eu sefydlu. Dylid cynnwys gwyddoniaeth i gefnogi ffactorau ffisegol a biolegol sy'n hanfodol i gylch bywyd y Llamhidyddion, gan gynnwys nodi lle mae'r creaduriaid yn bwydo a lloia. Ni ddylent gael eu sefydlu'n unig gan edrych ar boblogaeth o 10%, a ganfuwyd drwy fapio, sy'n wyddoniaeth artiffisial.

Fel y gwyddoch mae'n debyg, mae'r DU o dan fygythiad achos cyfreithiol ar hyn o bryd, oherwydd y dylai ddynodi rhagor o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar gyfer diogelu Llamhidyddion Harbwr.

Mae'r gwrthwynebiad hwn yn deillio yn sgîl y ffaith ei bod, ar hyn o bryd, yn amhosibl mesur yr effaith y gall Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sydd newydd eu dynodi eu cael ar y diwydiant pysgota yn y dyfodol. Mae hefyd yn gofyn cwestiynau ynghylch beth yw'r sail wyddonol a ddefnyddiwyd i sefydlu'r ardaloedd arfaethedig

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r Cyfarwyddbau Cynefinoedd Ewropeaidd presennol wedi profi, o dan Erthygl 6 (3) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, os cânt eu defnyddio'n ddiwahân, y gallent gael effaith ddinistriol ar ein cymunedau arfordirol sy'n dibynnu ar bysgota am eu bywoliaeth.

Mae'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dynodedig presennol wedi cyfyngu ar bysgodfeydd, gan ddod â chaledi i ran ein cymunedol arfordirol. Hefyd, ar brydiau, nid oes tystiolaeth wyddonol gadarn i gefnogi penderfyniadau'r Llywodraeth, ond yn hytrach mae'n defnyddio'r egwyddor ragofalus.

Er bod Llamhidyddion eisoes yn cael eu gwarchod yn dda, bydd dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o'r newydd, a fydd yn troshaenu ar yr ACA presennol, o bosibl, yn caniatáu i unigolion lunio achos cryfach gerbron Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yr UE ar yr Amgylchedd yn y dyfodol. Bydd yr achos hwnnw'n nodi rhagor o gyfyngiadau, er mwyn gwarchod yr amgylchedd morol ar draul y cymunedau arfordirol.

Mae maint y safleoedd yn awgrymu bod y ffiniau wedi cael eu sefydlu gan ddefnyddio'r egwyddor ragofalus, yn hytrach na gwyddoniaeth. Mae modelu yn ei hanfod yn wyddoniaeth artiffisial a ddefnyddir pan fydd y ffeithiau'n brin. Mae modelu hefyd yn gwbl ddibynnol ar y data, a gaiff eu bwydo i'r system.

Byddai'n well darganfod beth yw'r factorau ffisegol a biolegol sy'n hanfodol i gylch bywyd y Llamhidyddion, a ble y bydd yn bwydo a lloia. Ni ddylid edrych ar boblogaethau o 10% yn unig er mwyn pennu ffiniau'r ACA arfaethedig newydd.

Nid yw'r rhan fwyaf o bysgotwyr yn wahanol o gwbl i'r amgylcheddwyr. Maent hwythau'n mwynhau'r amgylchedd morol y maent yn gweithio ynddo, ac maent wrth eu bod yn gweld mamaliaid morol tra byddant yn pysgota.

Rydym mewn perygl o dros-reoleiddio'r moroedd o amgylch ein harfordir â deddfwriaeth amgylcheddol. Gallai hynny arwain at eithrio cymdeithasol o ran gweithgareddau traddodiadol y mae ein cymunedau arfordirol yn dibynnu arnynt.

Y broblem graidd yw pan fydd dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn cael ei ddefnyddio fel prif ddull i atal gweithgareddau, wedi i unigolion a sefydliadau gamddefnyddio deddfwriaeth mewn apeliadau a drefnwyd yn ofalus gerbron Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yr UE ar yr Amgylchedd. Nid oes ganddynt wyddoniaeth ddibynadwy i gefnogi cam i gyfyngu ar weithgareddau ychwaith. Bryd hynny, defnyddir yr egwyddor ragofalus i gau pysgodfeydd neu i gyfyngu ar weithgareddau, sydd yn ei dro yn arwain at galedi difrifol i'r cymunedau arfordirol.

Mae'n eithriadol o bwysig bod yr ardal yn gymharol a'i bod wedi'i dynodi ar sail tystiolaeth wyddonol gadarn.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Preseli Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Medi 2016
Petitions Committee | 12 September 2016

Tystion:

Rhif y ddeiseb: P-05-654

Teitl y ddeiseb: **Gwrthwynebu'r cynigion presennol o ran dynodi ardaloedd cadwraeth arbennig ar gyfer Llamhidyddion**

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i newid y ffordd y mae ffiniau presennol yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig ar gyfer Llamhidyddion yn cael eu sefydlu. Dylid cynnwys gwyddoniaeth i gefnogi ffactorau ffisegol a biolegol sy'n hanfodol i gylch bywyd y Llamhidyddion, gan gynnwys lle mae'r creaduriaid yn bwydo a lloia. Ni ddylent gael eu sefydlu'n unig gan edrych ar boblogaeth o 10%, a ganfuwyd drwy fapio, sy'n wyddoniaeth artiffisial.

Fel y gwyddoch mae'n debyg, mae'r DU o dan fygythiad achos cyfreithiol ar hyn o bryd, oherwydd y dylai ddynodi rhagor o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar gyfer diogelu Llamhidyddion Harbwr.

Mae'r gwrthwynebiad hwn yn deillio yn sgîl y ffaith ei bod, ar hyn o bryd, yn amhosibl mesur yr effaith y gall Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sydd newydd eu dynodi eu cael ar y diwydiant pysgota yn y dyfodol. Mae hefyd yn gofyn cwestiynau ynghylch beth yw'r sail wyddonol a ddefnyddiwyd i sefydlu'r ardaloedd arfaethedig.

Cefndir

Mamal morol yw'r llamhidyddion harbwr sy'n gyffredin ar draws foroedd oer a chymedrol Ewrop, gan gynnwys dyfroedd arfordirol Cymru. Yn ôl y [Cydbwyllgor ar Sgwrs Natur \(JNCC\)](#), ymddengys bod y boblogaeth llamhidyddion yn cronni ym Môr y Gogledd a'r Môr Celtaidd

rhwng mis Mehefin a Medi er bod cyfran o'r boblogaeth yn aros yno drwy gydol y flwyddyn. Mae data sydd ar gael yn awgrymu bod llamhidyddion harbwr mewn "statws cadwraeth ffafriol" ar hyn o bryd o amgylch y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, maent yn agored i bwysau gan gynnwys llygredd a chael eu dal yn ddamweiniol ([gweler cwestiwn 15 yn y daflen Cwestiynau Cyffredin atodedig](#)). Gwelir trosolwg manwl o ecoleg a chynefinoedd y llamhidyddion harbwr ym mhennod 1 o'r [adolygiad conservation literature](#) a luniwyd gan y Cydbwyllgor ar Sgwrs Natur (JNCC).

Mae'r llamhidyddion harbwr yn cael eu gwarchod yn gyfreithiol yn nyfroedd y DU drwy ddeddfwriaeth genedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol. Mae trosolwg manwl o'r cyd-destun polisi a deddfwriaethol ar gyfer llamhidyddion harbwr i'w weld ym mhennod 2 o [adroddiad y JNCC](#).

Yn yr UE, y brif ddeddfwriaeth yw Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt, sydd yn fwy adnabyddus fel y [Cyfarwyddeb Cynefinoedd](#). Mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer y rhywogaethau a restrir yn atodiadau i'r Gyfarwyddeb.

Fel sy'n wir gyda phob deddfwriaeth Ewropeaidd, gall y Comisiwn Ewropeaidd gymryd camau yn erbyn Aelod-Wladwriaeth y mae'n credu sy'n methu â gweithredu'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Yr enw ar hyn yw 'achos o dorri'.

Ym mis Hydref 2012, dechreuodd y Comisiwn Ewropeaidd [achos peilot](#) ynglŷn â diffyg Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gyfer llamhidyddion yn nyfroedd y DU. Mae achos peilot wedi'i gynllunio i ddatrys problemau cydymffurfiaeth heb orfod troi at achosion tresmasu. Ym mis Mehefin 2013, rhoddwyd hysbysiad ffurfiol i Lywodraeth y DU yn dilyn '[barn resymegol](#)' ym mis Hydref 2014. [Barn resymegol](#) yw'r cam swyddogol cyntaf yn yr achos o dorri. Ym mis Rhagfyr 2014, ymrwymodd Llywodraeth y DU i ganfod a dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer llamhidyddion dynodedig.

I benderfynu ar sefyllfa yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig, gweithiodd y JNCC gyda'r Cyrff Cadwraeth Natur Statudol ym mhob un o wledydd y DU er mwyn canfod y safleoedd gorau yn nyfroedd y DU. Yng Nghymru, y corff hwn yw Cyfoeth Naturiol Cymru. Y bwriad yw bod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn ardaloedd y gellir eu nodi'n glir ac sydd wedi'u lleoli yn ôl y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael.

Cafodd y data llamhidyddion harbwr a gasglwyd gan y JNCC ei lunio gan ddefnyddio'r [Protocol Morfilod ar y Cyd \(JCP\)](#) ac mae'n seiliedig ar ddsbarthiad llamhidyddion yn nyfroedd y DU dros gyfnod o 18 mlynedd rhwng 1994 a 2011. Cafodd ei gasglu gan ddata o arolygon a gomisiynwyd gan y Llywodraeth, cyrff anllywodraethol, unigolion a diwydiant. Roedd yn cynnwys data môr a gasglwyd o arolygon ar gychod ac o'r awyr a data tir o fannau mewn

lleoliadau arfordirol. Cafodd data ei ddadansoddi gan JNCC a'i gyhoeddi mewn dau adroddiad cymheiriaid, [543](#) a [544](#) y gellir eu gweld ar wefan y JNCC.

Cafodd canlyniadau'r ddau adroddiad eu dadansoddi gan y JNCC a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol y DU. Roeddent yn nodi pum Ardal Cadwraeth Arbennig arfaethedig. Gellir gweld eu lleoliad a dogfennau atodol ar y dudalen ymgynghori ar [wefan y JNCC](#).

Mae'r fethodoleg a ddefnyddir i nodi'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig wedi'u hamlinellu ym mhapur y JNCC [rhif 565](#):

- Cafodd data ar rywogaethau eu casglu o arolygon ar gychod ac arfordirol dros gyfnod o 18 mlynedd;
- Casglwyd data amgylcheddol, gan gynnwys gwybodaeth gyfredol ac ar wely'r môr gan fodelu hydrodynamig a gwybodaeth fel dwyseddau llongau;
- Cyfunwyd y ddwy ffynhonnell data hyn;
- Defnyddiwyd y data hwn i greu model dosbarthu gofodol-amserol (h.y. lle ac amser) o ddwysedd llamhidyddion a'i ansicrwydd cymharol;
- Defnyddiwyd y data model i ragweld a mapio dwyseddau llamhidyddion, parhad a lleoliadau poblogaidd posibl.

Roedd cam nesaf y broses yn cynnwys ymgynghoriad i adolygu'r lleoliadau hyn. Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru gynhaliodd yr ymgynghoriad ar ran Llywodraeth Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad a'u defnyddio fel sail i roi cyngor i Weinidogion Cymru o ran p'un a ddylid dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig neu beidio.

Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Rhwng 19 Ionawr a 3 Mai 2016, cynhaliodd [Cyfoeth Naturiol Cymru](#), mewn partneriaeth â'r JNCC, [ymgynghoriad](#) ynghylch yr "Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchod Arbennig morol newydd arfaethedig". Holodd yr ymgynghoriad farn ar y cynnig i greu tair Ardal Cadwraeth Arbennig newydd ar gyfer llamhidyddion harbwr yn nyfroedd Cymru. Yr ardaloedd hyn yw [Gogledd Môn Forol](#), [Gorllewin Cymru Forol](#) a [Dynesfeydd Môr Hafren](#) sy'n cwmpasu ardal o 16,477km². Trafodir Ardal Gadwraeth Arbennig arfaethedig Dynesfeydd Môr Hafren yn ymgynghoriad Lloegr (JNCC) a Chymru (Cyfoeth Naturiol Cymru). Gellir gweld dogfennaeth fanwl a map o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig yn y [papur ymgynghori](#) sydd hefyd yn cynnwys lincs i asesiadau penodol, mapiau ac amcanion cadwraeth.

Ar gyfer pob safle, roedd yr ymgynghoriad yn edrych ar:

- Y sail wyddonol y mae'r ffiniau arfaethedig yn seiliedig arni. Disgrifir hyn yn yr adran "Selection Assessment Documentation" yn y papur ymgynghori' a

- Yr Asesiad Effaith Economaidd Gymdeithasol y DU drafft. Roedd yr asesiad hwn yn dadansoddi'r effeithiau cymdeithasol ac economaidd posibl ar y safleoedd a all helpu i ddeall eu heffaith a rhoi gwybod i'r rheolwyr. Gellir gweld y rhain o dan yr adran "Draft Impact Assessments" yn y papur ymgynghori.

Mae'n bwysig nodi na ellir ystyried unrhyw ystyriaethau economaidd gymdeithasol a allai godi yn ystod y broses ymgynghori, fel effaith Ardal Gadwraeth Arbennig ar weithgareddau masnachol presennol neu yn y dyfodol, wrth ddynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu wrth ddiffinio'r ffiniau. Diben yr Asesiad Effaith economaidd gymdeithasol yw bod yn sail i benderfyniadau rheoli a wneir mewn perthynas ag unrhyw safleoedd sy'n cael eu cynnig ar gyfer eu dynodi.

Disgwylir i Gyfoeth Naturiol Cymru lunio adroddiad ar yr ymatebion ymgynghori ac unrhyw ddiwygiadau dilynol. Bydd eu hargymhellion ar gyfer dynodiadau yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Os bydd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig yn cael eu cymeradwyo, byddant yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd. Os caiff yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a gyflwynir eu derbyn, cyfeirir atynt fel 'Safleoedd o Bwys Cymunedol' a fydd yna'n cael eu huwchraddio i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig pan fydd Llywodraeth Cymru yn eu dynodi yn ffurfiol. Mae gan Weinidogion Cymru hyd at 6 mlynedd i ddynodi'r safleoedd yn ffurfiol a gweithredu'r holl fesurau rheoli angenrheidiol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am yr amserlen a'r broses ar gyfer dynodi [yn y ddogfen cwestiynau ac atebion hon](#) a baratowyd gan y JNCC a'r Cyrff Cadwraeth Natur Statudol.

Mae'r llythyr gan Lesley Griffith, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, ar 18 Awst 2016 at y Pwyllgor Deisebau yn nodi nad oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud eto ar ddynodi safleoedd newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cael argymhellion terfynol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar ganlyniadau'r ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni.

Nid yw'r llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi a fydd y broses o ddynodi'r safleoedd hyn yn cael ei heffeithio yn sgil y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Hyd nes y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol, mae cyfraith Ewrop yn dal i fod yn gymwys yng Nghymru.

Camau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Trafodwyd y penderfyniad i ddynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ychwanegol mewn [Datganiad Ysgrifenedig](#) ar 1 Ebrill 2015 gan Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar y pryd. Roedd y datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun gweithredu morol a physgodfeydd Llywodraeth Cymru.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-654
Ein cyf/Our ref LG/05766/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

18 August 2016

Dear Mike

Thank you for your letter of 27 July regarding the petition you have received from Stephen De Waine objecting to the proposed Special Areas of Conservation (SACs) for harbour porpoise.

The EU Habitats Directive requires Member States to identify and designate SACs for certain habitats and species to help restore or maintain them at favourable conservation status. Harbour porpoise is one such species and with almost half of the European population of harbour porpoise being found in UK waters there is a clear role for the UK in its conservation. Whilst the UK remains a member of the EU we continue to work towards meeting our obligations.

The UK has undertaken a number of assessments to try to identify areas suitable for consideration as harbour porpoise SACs. The earlier assessments did not provide adequate evidence to determine clearly identifiable areas. However, in June last year, Natural Resources Wales submitted advice to the Welsh Government setting out the results of the most recent analysis by the UK statutory nature conservation bodies. The results, which have been peer reviewed, identified areas within UK waters of persistent high densities of harbour porpoise that are suitable for designation as SACs, including 3 areas partly within Welsh waters. The data used for this process is the most up to date and extensive data sets available in Europe. The multiple sources of data were collated by the Joint Cetacean Protocol, an international cooperative approach for long term monitoring of cetaceans.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. **Tudalen y pecyn 127** Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Earlier this year on behalf of the Welsh Government, Natural Resources Wales consulted on the SAC proposals for harbour porpoise as they relate to Wales. A similar exercise was held at the same time in England and Northern Ireland just prior to a similar consultation in Scotland. The consultation provided an opportunity for all to consider and comment on the evidence and methodology used for identifying the proposed areas for harbour porpoise. Natural Resources Wales is working through the large number of consultation responses ahead of preparing its final advice to government. No decisions have been made yet. I expect to receive Natural Resources Wales's final recommendations for the protection of harbour porpoise in Welsh waters later this year.

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 recognises the importance we place on our nature and its biodiversity through the resilient Wales goal. SACs, alongside our other marine protected areas, play a key role in protecting and enhancing the marine environment to support the sustainable use of our natural resources. Coastal and marine activities can and must coexist with the conservation of habitats and species, in fact Wales' existing suite of SACs are functioning marine areas that support a variety of different uses, including fishing.

Regards
Lesley

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

P-04-547 Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Friends of Barry Beaches ar ôl casglu 295 llofnod ar lein.

Geiriad y ddeiseb:

Mae'r amser wedi dod i roi'r gorau i'r llanast y mae'r miliynau o gartonau polystyren bwyd a diod yn ei wneud o draethau a chefn gwlad Cymru. Mae polystyren (EPS) yn elfen amlwg o sbwriel trefol a morol. Mae'n niweidiol i fywyd gwylt sy'n ei lyncu ac mae'n costio miliynau i Gynghorau Cymru ei dynnu oddi ar ein strydoedd. Mae polystyren yn cymryd cannoedd o flynyddoedd i ddiraddio. Mae dros 100 o ddinasoedd yn yr Unol Daleithiau (gan gynnwys Efrog Newydd), Canada, yn ogystal ag Ewrop wedi gwahardd deunydd pacio polystyren ar gyfer bwyd o ganlyniad i effeithiau negyddol ar yr amgylchedd. Gobeithiwn y bydd Cymru yn cael y weledigaeth i ymuno â'r rhestr honno. Felly, gan fod cymaint o ddewisiadau amgen i ddeunydd pacio polystyren (EPS) bellach ar gael, sy'n cael llawer llai o effaith ar yr amgylchedd ac iechyd dynol, a hefyd er mwyn arbed miliynau o bunnoedd i drethdalwyr Cymru mewn costau glanhau strydoedd, yr ydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwaharddiad ar yr holl ddeunydd pacio polystyren ar gyfer bwyd a diod cyflym.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref P-04-547
Ein cyf/Our ref LG/05833/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

21

August 2016

Dear Mike

Thank you for your letter of 3 August requesting an update on the work the Welsh Government is undertaking to help reduce the environmental impact of polystyrene and coastal littering in Wales (Petition P-04-547 Ban Polystyrene (EPS) Fast Food and Drinks Packaging refers).

Work is progressing on the MSc student project to analyse pressures and trends of marine litter on Welsh coastlines and is due to be submitted at the end of September. Officials will take account of the findings of this project in their future advice on policy decisions. In the meantime, the Welsh Government continues to work closely with stakeholders to help address the issue of marine litter on our coastlines.

A number of projects and initiatives undertaken as part of "Coast Care" pilot have now been extended by Keep Wales Tidy (KWT), with additional community groups and "Coast Champions" being established across coastal areas in Wales. These volunteer groups are supported by KWT officers to help participate in regular beach clean-ups and other environmental improvements. KWT also continue to promote initiatives such as "2 minute beach cleans" and hold annual 'Clean Coast Week' events.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 130

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


In March KWT published their 2015-16 Local Environment Audit Management System (LEAMS) survey which, for the first time, collected data on the presence of polystyrene on the streets of Wales. The report recorded foam polystyrene litter on an average of 5.2% of the streets surveyed. Fast food items such as “clam shells” and fast food cups were found on almost 2% of streets, however, the majority of polystyrene litter found (3.2%) consisted of “other” types of foam polystyrene (insulation and fragile items packaging). In comparison smoking related litter was found on 82.7% of the streets surveyed. My officials will continue to monitor the data collected by this survey to determine the scale of the problem, which will help direct future policy development.

It should be noted the Welsh Government’s position on polystyrene has not changed since my predecessor last wrote to you (MB/ CS/1351/15 refers). I am not currently considering landfill bans or additional legislation for this material. However, work is being undertaken to address the issue of food waste, as this typically has a higher environmental impact than packaging waste due to the high levels of greenhouse gas generated by producing, storing and transporting food products. When discarded food reaches landfill sites it emits methane, a powerful greenhouse gas 25 times more powerful than Carbon Dioxide.

The Welsh Government recognises packaging plays an important role in preserving food products and minimising damage. Continued innovation around packaging helps to keep food fresher for longer, saves money and reduces waste. The Welsh Government is currently working with WRAP (Waste & Resources Action Programme) to promote the optimisation of packaging and to reduce it where possible regardless of the material.

Through an agreement called Courtauld 2025, WRAP also works closely with retailers, manufacturers and packaging companies to help prevent food and associated waste, including through the optimisation of packaging. This is an ambitious voluntary agreement, which brings together organisations across the food system, from producer to consumer, to make food and drink production and consumption more sustainable. The scheme covers the grocery, manufacturing, hospitality and food service sectors and includes a target to cut waste in the food chain by 20% by 2025, including packaging waste. Current signatories include major supermarkets, takeaway chains and packaging companies.

WRAP is also working with the EU to prevent waste in the food supply chain and to reduce packaging. It is also part of the United Nations *Think.Eat.Save* campaign, which brings together like-minded organisations, such as WWF and the Ellen MacArthur Foundation, to create a global network focussed on increasing the sustainability of grocery products.



Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Eitem 3.5

P-04-516 I wneud gwyddor gwleidyddiaeth yn rhan orfodol o addysg

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i bwysu ar Lywodraeth Cymru i wneud gwyddor gwleidyddiaeth yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ysgol.

Prif ddeisebydd: Mark Griffiths

Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 26 Tachwedd 2013

Nifer y llofnodion: 12

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/05344/16

Mike Hedges AM
Assembly Member for Swansea East
Chair - Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

11 July 2016

Dear Mike

Thank you for bringing to my attention the petition received by the Committee about the inclusion of Political Science as a compulsory element of the school curriculum. I have set out below details of how we are working to shape the future curriculum for the children and young people of Wales.

The four purposes, as articulated in Successful Futures, will be at the heart of the design of the new curriculum. One of those four purposes is to ensure our children and young people will be ethical, informed citizens who understand and exercise their human and democratic responsibilities and rights.

The design of the new curriculum is being taken forward by a network of Pioneer Schools. They are working together as a national network of schools to co-design, consult, inform, support and build capacity in schools across Wales, working in an all-Wales partnership with Welsh Government, Estyn, Higher Education, business and other key partners.

During the development process there will be opportunities for the Pioneer Schools to consider the content and structure of the six Areas of Learning Experience (AoLEs), including Humanities, which is where Political Science would likely sit. Work on the AoLEs is scheduled to begin in the autumn and it is envisaged that there will be mechanisms for stakeholders to feed into this process over time. Ahead of any legislative changes that may be needed to underpin our new approach and the new curriculum, the Welsh Government will consult to seek the views of stakeholders and interested parties.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The aim is for the new curriculum to be available from September 2018 and used to support learning and teaching from September 2021.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

P-04-637 Diogelu Dyfodol Cerddoriaeth Ieuencid yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan The Friends of Bridgend Youth Music a chasglwyd 1,363 llofnod ar lein a 738 llofnod papur = cyfanswm 2,101 llofnod

Manylion:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddiogelu addysg gerdd mewn ysgolion ac yn benodol i:

- Adfer yr arfer o neilltuo a gwarchod cyllidebau canolog ar gyfer addysg offerynnol proffesiynol mewn ysgolion;
- Gweithredu strategaeth genedlaethol i wrthdroi'r dirywiad yng ngwasanaeth Cerddoriaeth Ieuencid yng Nghymru;
- Cynnig hawl i blant a phobl ifanc Cymru i gael addysg sy'n datblygu eu personoliaethau, doniau a galluoedd unigryw yn llawn.

**P-04-637 To Protect the Future of Youth Music in Wales. Correspondence –
Welsh Joint Education Committee to the Chair 8.08.2016**

Mr Mike Hedges AM
Chair, Petitions Committee
National Assembly for Wales
Cardiff CF99 1NA

8 August 2016

Dear Mike Hedges,

Petition P-04-0637 – To Protect the Future of Youth Music in Wales

Thank you for your correspondence in relation to this matter. I apologise for the inordinate delay in replying.

You ask specifically about our "plans relating to resources for the National Youth Orchestra". During the period since June 2015 when you have been considering this petition, a Welsh Government task group (chaired by the Arts Council of Wales) has reported on the prospects for securing the future of youth arts provision at a national level: its report is available here:

<http://gov.wales/topics/cultureandsport/arts/national-youth-arts-ensembles-of-wales/?lang=en>

The recommendations of this report are being taken forward by an Interim Board which is working to set up a National Youth Arts Wales (NYAW) organisation as a company limited by guarantee (which will then apply for charity status). In preparation for this, WJEC (in association with Ty Cerdd, its partner organisation within the current NYAW arrangements) has taken the following steps in order to improve the financial situation for the new organisation:

- standardised the fees charged on members of the youth ensembles at £42 per 24-hour residential period (hence participants in the National Youth Orchestra have each been charged approx. £500 for this year's summer activity)
- established arrangements for administering bursaries from the very generous legacy donation by Mr Haydn Webber of Whitchurch, Cardiff, allowing us to support those young people who have genuine difficulty meeting the increased charges
- reduced the size of the small central team of youth arts staff.

During the period in which the task group was undertaking its work, the local authorities collectively agreed to one further year of funding for the three national youth ensembles that have the longest residential tuition periods (orchestra, theatre and dance). This is at the same level as for 2015–16, being a 30% reduction on their contribution in 2014–15, which followed three consecutive reductions of 5% from the 2011–12 figure of £450k.

Whilst recognising that it is the severe external financial pressures imposed on them that has caused the local authorities' contribution to reduce from £450k to £270k, the potential removal of this element of funding support in its entirety for the 2017–18 financial year presents a significant threat to the future activity of the youth ensembles is. As a consequence, it is unclear at present whether the National Youth Orchestra will have a residential tuition period and short concert tour during the summer of 2017 or whether it will be restricted to a single collaborative concert with the BBC National Orchestra of Wales (which features within our programme in alternate years).

In setting up the new National Youth Arts Wales organisation, we are mindful of the emphasis that needs to be placed on fundraising. However, we recognise that this is a considerable challenge for arts organisations in Wales and also that we need to invest in fund-raising capacity. It is indicated in the task group report that (if local authority funding is removed completely) the fundraising target for the new organisation is in the region of £350k and

advice received suggests that this level of fundraising may well require effort that could cost about £100k to source.

With a consequent annual fundraising target of the order of £450k it has to be recognised that, if this level is achievable at all, the new organisation is likely to take several years to reach it. For this reason, we shall continue to remind local authorities of the immense value of their contribution (even at £270k per annum or slightly less) and we also look forward to understanding the Welsh Government's position in relation to two other recommendations within the task group's report:

- (i) the possibility of direct funding from the Welsh Government education and/or arts budgets and/or from other Welsh Government budgets
- (ii) the potential for National Youth Arts Wales to become a key beneficiary of the National Endowment for Youth Music (NEYM), should this be established.

The connection between all of this and the main focus of the petition that you are considering (to protect music tuition in schools) was eloquently made by conductor Carlo Rizzi at the end of the Youth Orchestra's concert at St David's Hall last Friday evening. He suggested that it was "miraculous" that a nation of three million people could produce a youth orchestra of sufficient quality to make such a success of performing the challenging works by Bartok and Strauss that formed the main part of the programme, and that this was evidence of the quality of the underpinning music tuition.

It is clear, therefore, that your petitioners are focussing on an area where there is much at stake in terms of future provision. The national youth ensembles (of which the Youth Orchestra is the oldest, emerging from an initiative in 1946 by the Monmouthshire Education Authority and managed by WJEC for the 65th summer this year) are seen as operating on a pyramid basis, relying very much on the base layers of provision at local and regional level. Whilst we are attempting to address the challenges of securing a

sustainable future for the Youth Orchestra, we are aware that its quality is strongly associated with the availability of local music tuition.

Yours sincerely,

Gareth Pierce
Chief Executive

Eitem 3.7

P-04-677 – Mynediad Cyfartal i'r Iaith Gymraeg

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Remigijus Šiaučiūnas ar ôl casglu 45 Llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Dylai'r Gymraeg fod mor hygyrch â'r Saesneg. Yn anffodus, nid dyma'r sefyllfa. Rwyf yn siarad o brofiad. Rwyf wedi symud i Gymru, a hoffwn ddysgu o leiaf ychydig o Gymraeg. Mae dod o hyd i ddosbarth Saesneg sy'n rhad ac am ddim yn gymharol hawdd, ond mae'n amhosibl dod o hyd i ddosbarth Cymraeg sy'n rhad ac am ddim.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn datgan na ddylai unrhyw un gael ei drin yn llai ffafriol nag unrhyw un arall yn sgil ei genedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd, cred grefyddol neu athronyddol neu ddiffyg crefydd neu gred.

Dylai'r broses o ddysgu Cymraeg fod mor hygyrch â dysgu Saesneg i bawb, gan gynnwys mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref P-04-677
Ein cyf/Our ref ARD/05235/16

Mike Hedges AC
Aelod y Cynulliad dros Ddwyrain Abertawe
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

17 Awst 2016

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 3 Awst, at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch Deiseb P-04-677 Mynediad Cyfartal i'r Iaith Gymraeg. Anfonwyd yr e-bost ymlaen ataf i i'w ateb.

Yn ddiweddar, cyhoeddais ei bod yn nod gan Lywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd sicrhau bod yr holl ddysgwyr posibl, beth bynnag eu cefndir, yn gallu cael mynediad at gyrsiau Cymraeg yn hollbwysig yn hyn o beth.

Fel y nododd y Gweinidog blaenorol yn ei ateb, mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n ystyried yr hyn sydd gan Gymraeg i Oedolion yn gyffredin â Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, a chaiff darparwyr Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill eu hannog i gynnwys peth hyfforddiant Cymraeg yn eu dosbarthiadau.

Rwyf yn cytuno â'r deisebydd y dylai dysgu Cymraeg fod mor hygyrch â dysgu Saesneg. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod, ar hyn o bryd, gwahanol bolisiau o ran codi ffioedd, a'r darparwyr unigol eu hunain sy'n penderfynu ar y ffioedd a godir am gyrsiau Cymraeg i Oedolion, nid Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol y llynedd. Nod y Ganolfan yw gosod y trywydd strategol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion. Ei thasg gyntaf oedd penodi darparwyr i ddarparu cyrsiau o fis Medi 2016 ymlaen. Mae'r darparwyr bellach yn eu lle, ac yn awr gall swyddogion, y Ganolfan Genedlaethol, a darparwyr gynnal trafodaethau dros y flwyddyn ynglŷn â'r mater o ffioedd i ddysgwyr. Bydd angen inni sicrhau bod yr holl

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddysgwyr posibl, beth bynnag eu cefndir, yn gallu cael mynediad at gyrsiau ym mhob cwr o Gymru er mwyn cyfrannu at gyflawni'r nod o sicrhau un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath.

Alun Davies AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

P-04-677 Equal Access to Welsh Language. Correspondence – Petitioner to the Committee 25.08.2016

I am encouraged by the following passages from the response of the Minister for Lifelong Learning and Welsh Language Alun Davies: "I agree with the petitioner that learning Welsh should be as accessible as learning English" and "Welsh Government officials are considering the parallels between Welsh for Adults and English for Speakers of Other Languages (ESOL) provision".

Nevertheless I am concerned that some other passages don't go far enough ("ESOL providers are encouraged to incorporate some Welsh language training into their classes") and are rather lukewarm, not consistent with the principle of equality and very far removed from the recently announced Welsh Government's aim of reaching one million Welsh speakers by 2050 ("It is important to note that at present, there are different policies with regards to the charging of fees).

Kind regards,

Remigijus Šiaučiūnas

Eitem 3.8

P-05-694 – Amseroedd Ysgol Awr yn Hwyrach

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cai Ellerton ar ôl casglu 16 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Rwyf yn ysgrifennu i ofyn ichi ystyried fy neiseb. Fel mae rhieni, athrawon a myfyrwyr/disgyblion yn gwybod, mae ysgolion cynradd yn dechrau am 08:45 ac mae ysgolion uwchradd yn dechrau am 08:30. Hoffwn i ysgolion ddechrau awr yn hwyrach yn y bore, sy'n golygu y byddai ysgolion cynradd yn dechrau am 09:45 ac ysgolion uwchradd yn dechrau am am 09:30.

Mae prawf yn Lloegr wedi dangos bod myfyrwyr yn sicrhau gwell canlyniadau arholiad os yw ysgol yn dechrau awr yn hwyrach.

Diolch ichi am ystyried y cais hwn.

Cai Ellerton, 13.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Rhif y ddeiseb: P-05-694

Teitl y ddeiseb: Amseroedd Ysgol Awr yn Hwyrach

Testun y ddeiseb: Rwyf yn ysgrifennu i ofyn ichi ystyried fy neiseb. Fel mae rhieni, athrawon a myfyrwyr/disgyblion yn gwybod, mae ysgolion cynradd yn dechrau am 08:45 ac mae ysgolion uwchradd yn dechrau am 08:30. Hoffwn i ysgolion ddechrau awr yn hwyrach yn y bore, sy'n golygu y byddai ysgolion cynradd yn dechrau am 09:45 ac ysgolion uwchradd yn dechrau am 09:30.

Mae prawf yn Lloegr wedi dangos bod myfyrwyr yn sicrhau gwell canlyniadau arholiad os yw ysgol yn dechrau awr yn hwyrach.

Cefndir

Yn ôl adran 32 o [Ddeddf Addysg 2002](#), cyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am bennu amserau sesiynau ysgol mewn ysgolion a gynhelir. Os bydd awdurdod lleol o'r farn bod angen newid amserau sesiynau unrhyw ysgol a gynhelir, neu o'r farn y byddai gwneud hynny'n hybu'r defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio neu'n gwella effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd ei drefniadau cludiant, gall benderfynu pryd y dylai sesiwn gyntaf yr ysgol ddechrau a phryd y dylai ei hail sesiwn ddod i ben (neu os nad oes ond un sesiwn, pryd y dylai'r sesiwn honno ddechrau a dod i ben). Mae'r gweithdrefnau wedi'u nodi mewn [Rheoliadau](#).

Ymchwil i effaith cwsg a chyflawniad academiaidd

Cynhaliwyd sawl astudiaeth i effaith cwsg a chyflawniad academiaidd, [yn bennaf yn UDA](#), lle mae llawer o ysgolion yn dechrau'n gynharach na 8:30, a llawer ohonynt mor gynnar â 7:00. Yn ôl ymchwil gan niwrowyddonwyr, mae ein bioleg yn newid wrth inni heneiddio, o safbwynt yr amser y byddwn yn cysgu. Wrth i'r glasoed ddechrau, mae pobl ifanc yn mynd i gysgu ac yn deffro'n hwyrach. Mae'r duedd hon yn parhau tan 19.5 oed i fenywod a 21 oed i ddynion. Yna, mae'r duedd yn gwrthdroi. Mae astudiaethau'n awgrymu bod yr effaith o ddechrau'r diwrnod am 7:00 i berson ifanc yn ei ardegau yn gyfwerth â dechrau am 5:00 i berson yn ei 50au.¹

Yn 2009, dechreuwyd astudiaeth beilot fach yn Ysgol Monkseaton, Tyneside, lle newidiwyd amser dechrau'r ysgol o 08:50 i 10:00, gan arwain at gynnydd yng nghanran y disgyblion a gafodd bum cymhwyster TGAU da, o tua 34 y cant i tua 50 y cant. Ymhlith disgyblion sydd o dan anfantais, roedd cynnydd o tua 19 y cant i tua 43 y cant.² Dangosodd y canlyniadau cynnar fod yna hefyd ostyngiad mewn absenoldeb, gydag absenoldeb cyffredinol yn gostwng 8 y cant ac absenoldeb parhaus yn gostwng 27 y cant.³

¹ The New Scientist, [Why teenagers really do need an extra hour in bed](#), Yr Athro Russell Foster, Ebrill 2013

²Gwefan newyddion y BBC, [Later school start time 'may boost GCSE results'](#), 9 Hydref 2014

³Gwefan newyddion y BBC, [Lie-in for teenagers has positive results](#), 22 Mawrth 2010

Dychwelodd amserau dechrau'r ysgol i 8:50 ar ôl i'r pennaeth a gyflwynodd y cynllun pilot adael yr ysgol.

Prosiect ymchwil Teensleep

